

Rhagair

Annwyl Fyfyriwr

Croeso i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r cwrs MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd. P'un a ydych yn dilyn y cwrs hwn at ddibenion datblygiad proffesiynol parhaus lle byddwch, gobeithio, yn gwella'ch rhagolygon gyrfa, neu'n syml at ddibenion diddordeb neu fwynhad cyffredinol, rwy'n ffyddiog y bydd y cwrs hwn o fantais ac yn werth chweil i chi.

Gan fod dwyieithrwydd / amlieithrwydd mor eang fel maes astudiaeth academiaidd, gan gwmpasu cynifer o agweddau megis seicoieithyddiaeth, cymdeithaseg iaith, caffaeliad iaith, cynllunio iaith a chreu polisïau, rydym wedi ceisio sicrhau y bydd y modiwlau yr ymdrinnir â hwy'n darparu profiad eang ond cyfle hefyd i fyfyrwyr ddarganfod diddordeb mewn maes astudio penodol y gallent benderfynu arbenigo ynddo yn y dyfodol.

Anogwn fyfyrwyr bob amser i gwblhau'r cwrs MA yn llawn trwy astudio 180 o gredydau ac rydym yn sicrhau eu bod nhw'n cael y gefnogaeth angenrheidiol i wneud hynny bob amser. Fodd bynnag, gan fod gan y cwrs strwythur modwlar lle gellir astudio hefyd am dystysgrif ôl-raddedig (60 credyd), diploma ôl-raddedig (120 credyd), a hyd yn oed modiwl sengl, ni ddylai fyfyrwyr byth deimlo eu bod o dan unrhyw bwysau i gyflawni'r hyn a allai ymddangos yn anorchfygol weithiau. Mae'r brifysgol yn darparu gwasanaethau i bob myfyriwr a ddyluniwyd i hwyluso taith lyfn a didrafferth trwy astudiaeth academiaidd, ac fe'u hanogir i fanteisio arnynt.

Yn ogystal â'r Llyfryn Arweiniad ar gyfer Modiwl ECDA-7012C, *Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn yr Unigolyn*, darperir deunydd cyfeirio hefyd ar ffurf dau gyhoeddiad yn ogystal â deunydd darllen a lungopiwyd yn gyfreithlon er cyfleustod i chi ac fe'u hadwaenir fel Darlleniad 1, 2, 3, 4 a 5.

Dyma'r ddau gyhoeddiad:

Baker, C. *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. Clevedon:

Multilingual Matters, 2011. (5ed Rhifyn)

Beatens Beardsmore, H. *Bilingualism: Basic Principles*. Clevedon: Multilingual Matters, 1991.

Dyma ddarlleniadau 1-5:

1. Chin, N. B. & Wigglesworth, G. *Bilingualism: an advanced resource book*. London: Routledge, 2007.

2. Terminology and Typology: Samuel Abudarham

3. Dodson, C.J. *The Effects of Second Language Education on First / Second Language Development*. In B.M. Jones & P. Ghuman (eds) *Bilingualism, Education and Identity*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995.

4. Skutnabb-Kangas, T. *Bilingualism or Not: The Education of Minorities*. Clevedon: Multilingual Matters, 1981.
5. Sachdev, I. & Giles, H. Bilingual Accommodation. In T.K. Bhatia & W.C. Ritchie (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Oxford: Blackwell, 2006.

Dylech gyfeirio at y rhain bob amser, naill er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth a grybwyllwyd yn y Llyfryn Arweiniad, neu i gyfoethogi, dyfnhau a gwella'ch dealltwriaeth o wybodaeth sydd eisoes wedi'i darparu.

Mae Llawlyfr i Fyfyrrwyr yn rhoi ichi fanylion yr holl fodiwlau a gynigir fel rhan o'r cwrs MA llawn, gan gynnwys y rhai sy'n orfodol a'r rhai sy'n ddewisol. Mae'r fath fanylion yn cynnwys nifer y credydau ar gyfer pob modiwl, y cynnwys a'r canlyniadau academaidd, y dulliau asesu yn ogystal â phwysiad pob cydran asesu. Ceir rhestr lyfrau ar ddiwedd pob modiwl hefyd. Cyngorir myfyrwyr Dysgu o Bell i ddefnyddio hwn fel llyfryddiaeth ychwanegol gan fod gan y Llyfryn Arweiniad hefyd restr o gyfeiriadau sy'n ymwneud â chyhoeddiadau a grybwyllwyd yn y llyfryn ei hun.

Os byddwch yn dymuno cyfeirio at unrhyw ddeunydd darllen a allai fod yn anodd ei gaffael, mae croeso ichi roi gwybod imi fel Cydlynnydd y Cwrs. Er y dylech ganfod bod y deunyddiau astudio a ddarparwyd ar eich cyfer yn ddigon i fodloni gofynion yr aseiniad(au) a osodwyd ar gyfer modiwl, fe'ch cyngorir mai *arweiniad*, fel y mae'r enw'n awgrymu, yw'r Llyfryn Arweiniad a dylai pob myfyriwr ddarllen cymaint â phosibl o gwmpas y maes astudio.

Bydd y deunyddiau astudio a anfonir ar gyfer pob modiwl hefyd yn cynnwys yr aseiniad(au) a osodwyd at ddibenion asesu yn ogystal â'r *meini prawf* y bydd pob aseiniad yn cael eu hasesu wrthynt. Bydd y meini prawf asesu'n cynnwys y rhai sy'n generig eu natur (ac a fydd yn gyffredin i bob modiwl), yn ogystal â'r rhai sy'n fwy penodol i'r pwnc ac yn seiliedig ar *gynnwys academaidd modiwl penodol*. Bydd pob maen prawf yn cael ei asesu'n unigol a'i gofnodi ar daflen asesu ac yna'n cael eu cyfuno'n un marc cyffredinol.

Caiff pob aseiniad ei farcio am yr eildro yn fewnol gan academydd arall ac fel rheol, deuir i gytundeb ar y marc i'w dyfarnu cyn iddo gael ei anfon at arholwr allanol am asesiad terfynol. Mae'r marc a ddyfernir yn fewnol yn parhau i fod yn un dros dro hyd nes bod yr arholwr allanol yn cadarnhau hynny mewn bwrdd arholi.

Y gobaith yw y bydd yr uchod yn gymorth wrth baratoi am unrhyw aseiniad. Pwrpas rhoi'r meini prawf asesu ichi ymlaen llaw yw er mwyn eich cynorthwyo wrth ganolbwyntio ar y materion perthnasol.

Amgaeir dogfennau hefyd sy'n rhoi manylion ac arweiniad pellach mewn perthynas ag agweddau amrywiol fel gweinyddu, gofynion a rheoliadau academaidd, gwasanaethau a chymorth i fyfyrwyr. Fel myfyrwyr dysgu o bell, ceir gwahaniaethau amlwg ac anochel y byddwch yn cael profiad ohonynt wrth gyflwyno'r cwrs o gymharu â bod ar y campws. Fodd bynnag, pwysleisir nad oes angen ystyried hwn yn brofiad ynysol neu unig. Gellir cysylltu'n rheolaidd dros yr e-bost, ffôn neu Skype er mwyn lleihau neu ddatrys unrhyw broblemau posibl. Yn ei hanfod, y cyngor a roddir i chi yw bod angen ichi gysylltu â'ch tiwtor pryd bynnag

y mae angen cymorth arnoch ac am y rheswm hwnnw, rydw i, Cydlynnydd y Cwrs, yn sicrhau fy mod i ar gael i ateb unrhyw ymholiadau wrth iddynt godi.

Unwaith eto, dymunaf yn dda ichi gyda'ch astudiaethau a gobeithio y bydd y profiad academaidd yn un llawn mwynhad a gwerth chweil yn ogystal â goleuedig ichi.

Dr Hywel Glyn Lewis
Y Cydlynnydd MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd
Ffôn: 0044-(0)1267-676680
E-bost: h.lewis@ydds.ac.uk

Asesiad ECDA-7012C

Gwaith cwrs: 100%

Aseiniad 1 (3,000 o eiriau) 50%

Dadansoddwch yn feirniadol i ba raddau y gellir ystyried bod unigolyn dwyieithog cytbwys yn “rhywogaeth brin os ydyw’n bodoli o gwbl”

Aseiniad 2 (3,000 o eiriau) 50%

Pa fath o anawsterau methodolegol y gellir eu disgwyl wrth geisio mesur hyfedredd dwyieithog unigolyn, ac i ba raddau y gellir goresgyn y rhain?

Modiwl ECDA-7012C: Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn yr Unigolyn

Rhagarweiniad

Mae iaith yn ffenomenon sy'n amgylchynu pob un ohonom ac mae bron yn amhosibl dianc rhagddi gan fod cyfathrebu yn angen gyddol oes, ymarferol y mae'r rhan fwyaf ohonom yn dibynnu'n barhaus arni er mwyn rhyngweithio gyda chyd fodau dynol. I'r rhan fwyaf o bobl, felly, yn y bôn, mae iaith yn gysylltiedig â *chyfathrebu*, boed ar lafar neu ar bapur, gan mai cyfathrebu yw'r hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio iaith ar ei gyfer ac ni feddylir ymhellach fel rheol am unrhyw oblygiadau allanol posibl. Fodd bynnag, gall cyfathrebu weithredu ar sawl lefel wahanol, hyd yn oed mewn cyd-destunau cymdeithasol lle dim ond un iaith gyffredin a ddefnyddir. Mewn cyd-destunau lle caiff mwy nag un iaith ei mabwysiadu neu lle mae mwy nag un iaith ar gael, hynny yw mewn cyd-destunau dwyieithog neu amlieithog, mae cyfathrebu o ran rhyngweithio dynol yn cymryd sawl agwedd a goblygiad arall a allai fod yn gymdeithasol, yn seicolegol, yn addysgol neu'n wleidyddol eu natur.

Fel y mae Sachdev & Giles (2006:354) yn haeru:

“Bilingual communication is influenced not only by features of the immediate situation and participants' initial orientations to it, but also by the socio-historical context in which the interaction is embedded...Bilingual communication is not *only* a matter of exchanging referential information, but salient social category memberships are often negotiated during an interaction through the processes of accommodation.”

Mae Mackey (1967:11) yn datgan:

“Bilingualism, far from being exceptional, is a problem which affects the majority of the world's population.”

Gellir ystyried bod y defnydd o'r gair “problem” yn ddadleuol fel y byddwn yn gweld yn ystod y cwrs hwn. Fodd bynnag, mae mathemateg bur yn pennu oherwydd amcangyfrifir bod rhwng 5,000 a 7,000 o ieithoedd yn y byd a llai na 200 o wledydd, mae'r rhan fwyaf ohonynt o leiaf yn ddwyieithog neu'n amlieithog, sefyllfa sydd yn aml yn golygu canlyniadau *gwleidyddol a diwylliannol* anochel. Mae gan sawl gwlad ieithoedd na ellir eu rhifo'n cael eu siarad yn erbyn eu poblogaethau, fel y byddwn yn darganfod ym Modiwl ECDA-7011C. Fel y mae Edwards (1994:1) yn datgan mae bod yn ddwyieithog yn “a normal and unremarkable necessity for the majority of the world today”.

Mae Hoffman (1991:6) yn nodi'r ffaith fod y maes astudio'n un aml-ddisgyblaethol, gan fod “wide range of social sciences contribute towards our understanding of bilingualism: sociology, ethnology, anthropology, education, psychology and most branches of linguistics, including pragmatics.”

Mae Baetens Beardsmore (1991:41) sy'n ystyried dwyieithrwydd yn “a relative concept with no clear cut-off points” yn datgan hefyd:

“One explanation for the difficulties in circumscribing the field of bilingualism is the multidisciplinary nature of the aspects involved...The various disciplines involved in analysing the phenomenon, be they linguistics, psychology, sociology or pedagogy, approach it from their own particular vantage point...the term bilingualism covers a diverse series of programmes...” (1991:3)

Dyluniwyd y cwrs MA hwn i ymchwilio i amryw faterion sy’n amgylchynu agweddau amryfal dwyieithrwydd ac amlieithrwydd a sut maent yn rhyngweithio gyda’i gilydd, oherwydd byddai rhannu’r materion hynny’n adrannau’n gamarweiniol ac yn bychanu effaith bosibl pob agwedd ar agweddau eraill.

Fodd bynnag, er mwyn hwyluso dealltwriaeth, mae angen canolbwyntio hefyd ar rai materion hanfodol sy’n ymwneud â phob agwedd unigol cyn ymdrechu i ymchwilio i unrhyw gydgyssylltiad. Er enghraifft, lle mae’r astudiaeth o ddwyieithrwydd yn yr unigolyn yn tueddu i ganolbwyntio’n bennaf ar agweddau ieithyddol a seicoieithyddol, mae dwyieithrwydd cymdeithasol yn cwmpasu materion cymdeithaseg iaith, cymdeithasol-ddiwylliannol, gwleidyddol ac addysgol etc.

Yn y modiwl cyntaf, “Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn yr Unigolyn” (ECDA-7012C), felly, byddwn yn astudio dwyieithrwydd / amlieithrwydd mewn unigolion cyn bwrw ymlaen i osod yr unigolyn yng nghyd-destun cymdeithasol ehangach y modiwl nesaf, “Dwyieithrwydd Cymdeithasol” (ECDA-7011C). Fodd bynnag, mae’r llinell sy’n gwahanu’r ddau yn aml yn athraidd iawn, efallai caiff y cysylltiad ei grisialu yng nghwestiwn Fishman (1965): Who speaks what language to whom and when? (Baetens Beardsmore, 1991:5).

Terminoleg

Mae angen cynnig gair byr mewn perthynas â’r defnydd o derminoleg. Defnyddir ystod eang o derminoleg yn y maes astudio hwn ac ymddengys weithiau eu bod yn cael eu defnyddio’n gyfystyr, ond gallai fod rhai gwahaniaethau, ni waeth pa mor fân maent yn ymddangos. Er enghraifft, mae Baker (2011) yn cynnig diffiniadau i’r termau canlynol:

- **Sgiliau iaith:** y sgiliau hynny sy’n “allanol” o ran perfformiad gweladwy, yn enwedig o ran y gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad a dangos dealltwriaeth.
- **Hyfedredd iaith:** fe’i defnyddir mewn ystyr mwy cyffredinol a llai penodol o ran sgiliau “mewnol”, nad ydynt bob amser yn cael eu dangos na’u gweld trwy berfformiad allanol ond sydd serch hynny’n bodoli ac yn gysylltiedig â rhyw system sylfaenol, yr hyn y mae Baker (2011:21) yn cyfeirio ato fel “an inner, mental representation of language, something latent rather than overt.”
- **Perfformiad iaith:** y dystiolaeth wirioneddol allanol, gweladwy o hyfedredd ieithyddol mewnol.
- **Gallu iaith / Hyfedredd iaith:** yn aml, fe’i defnyddir yn amwys ac fel cyfystyron ar gyfer ystyron i’r uchod ond maent yn awgrymu cyfuniad o amryw brosesau, gan gynnwys *caffael* iaith yn anffurfiol yn ogystal â gallu

gwybyddol/deallusol. Fel y mae Baker (2011:21) yn datgan: “For some, language ability is a general, latent disposition, a determinant of eventual language success. For others, it tends to be used as an outcome, similar but less specific than language skills, providing an indication of current language level:”

- **Cyflawniad iaith** : fel rheol, fe'i defnyddir i olygu *lefel* y gallu neu hyfedredd a enillwyd mewn iaith, yn enwedig o ran canlyniad y cyfarwyddyd ffurfiol.

Mae gan y deunydd darllen beth wmbredd o dermau sy'n ymwneud â dwyieithrwydd gydag amryw awduron wedi bathu terminoleg gyfystyr sy'n ymwneud â'r un maen prawf, fel y cam lle mae dwyieithrwydd yn cael ei gaffael (e.e. dwyieithrwydd babandod neu ddwyieithrwydd cynnar) neu lefelau hyfedredd (e.e. dwyieithrwydd derbyngar neu ddwyieithrwydd goddefol).

Fodd bynnag, gellir dod ar draws rhywfaint o anghysondeb achlysurol hefyd. Er enghraifft, yn Narlleniad 1, mae Chin a Wigglesworth (2007:7) yn paru'r term “goddefol” (passive) gydag “enciliol” (recessive) i ddisgrifio “bilinguals who are gradually losing competence in one language, usually because of disuse.” Cyngorir yn glir, er lles sicrhau mwy o benodoldeb wrth fabwysiadu terminoleg ar gyfer maes astudio hynod gymhleth, efallai y dylid cadw “enciliol” i ddisgrifio'r unigolion hynny “who are gradually losing competence in one language, usually because of disuse”, ond lle dylid cadw “derbyngar” o bosibl i ddisgrifio'r sawl *nad* ydynt yn graddol golli eu hyfedredd (er gwaethaf diffyg defnydd tebyg)

Yn ogystal, mae Baetens Beardsmore (1991:16-17) yn cyfeirio at Grosjean (1982) yn mabwysiadu'r term “pobl ddwyieithog segur” (dormant bilinguals) i ddisgrifio unigolion sydd mewn modd “derbyngar” i bob pwrpas ond y gallai eu sgiliau cynhyrchuol gael eu hailgychwyn o dan amodau mwy ffafriol o bosibl. Yn ogystal â darparu trafodaeth hir am ‘ledieithyddiaeth’, cyfeirir hefyd at ddefnydd Dorian (1982) o'r termau “lled-siaradwyr hyfedredd isel” (low proficiency semi-speakers) a “phobl ddwyieithog bron yn oddefol” (near-passive bilinguals) (tt 14-15) yn ogystal â defnydd Pohl (1965) o “ddwyieithrwydd anghymesur” (asymmetrical bilingualism) y mae Baetens Beardsmore yn argymhell eu cadw i ddisgrifio “a situation which at first sight may seem exceptional but in fact is not so rare” (tt 20-21).

Lle na ellir beio myfyriwr am weld hyn fel dim byd mwy nag ymgais diangen i “holhti blew”, mae'r ymgais i fabwysiadu terminoleg sy'n cwmpasu pob achos ieithyddol yn adlewyrchu'r broblem sylfaenol o geisio cwmpasu ystod eang o newidynnau yn y cydadwaith rhwng continwwm o *hyfedredd* ieithyddol (gradd) ar yr un llaw a *defnydd* iaith (swyddogaeth) ar y llaw arall (gweler isod). Mae'r fath ystod o gyfnewidiadau'n gofyn yn anochel am fabwysiadu terminoleg fwy penodol. Enghraifft bellach o hyn yw'r ffordd y mae Baetens Beardsmore (1991:21) yn *argymhell* y dylid defnyddio term Diebold (1961) “dwyieithrwydd cychwynnol” (incipient bilingualism). Fodd bynnag, nid yw'r fath ymgais am benodoldeb efallai wedi arwain at gysondeb o ran defnydd bob tro.

Mae Darlleniad 2 yn gosod terminoleg sy'n ymwneud ag agweddau datblygiadol caffael ail iaith neu ddwyieithrwydd mewn fframwaith teipolegol sy'n cael ei gategoreiddio ymhellach o dan yr is-benawdau canlynol:

- (i) amser caffael yr ail iaith

- (ii) datblygiad iaith a chyd-destunau caffael
- (iii) hyfedredd iaith (gan gynnwys hyfedredd perthynol ym mhob iaith)
- (iv) defnydd ac amledd defnydd pob iaith

Dylid nodi y bydd Darlleniadau 1 a 2 a Baetens Beardsmore (1991) er enghraifft, yn cyflwyno'r myfyriwr i ystod eang o derminoleg yn ymwneud â dwyieithrwydd a fydd yn ei alluogi/galluogi i ddod i arfer â, a disgrifio ystod eang o lefelau hyfedredd a chyd-destunau ieithyddol. Gallai fod gan rai ohonynt fwy o berthnasedd i agweddau sy'n cael eu hastudio mewn modiwlau dilynol, gan gynnwys y rhai sy'n delio â dwyieithrwydd cymdeithasol, agweddau gwybyddol ar ddwyieithrwydd neu gaffaeliad iaith. Serch hynny, bydd y darlleniadau'n cynnig rhagarweiniad cadarn i derminoleg sy'n ymwneud â'r maes astudio eang hwn a dylai ef/hi ymgyfarwyddo'n raddol â nhw. Fodd bynnag, daw hyn gyda'r rhybudd y gall y dymuniad ymhlith academyddion i anelu at ddisgrifiad mwy penodol o ystod eang o newidynnau (ynghyd â'r hyn sy'n ymddangos yn swm penodol o annibyniaeth academiaidd a phroffesiynol wrth fathu termau) weithiau arwain at anghysondeb o ran defnydd ac ystyr (gweler Datblygiad Dwyieithog isod).

Er lles cyfleustod, byddwn yn defnyddio'r term "dwyieithog" am y tro i gwmpasu agweddau ar ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd, oni fod rheswm dros beidio â gwneud hynny. Byddwn yn tybio felly, bod y term "dwyieithog" yn berthnasol i fwy na dwy iaith oni nodir fel arall. Gan ddyfynnu Baetens Beardsmore (1991:3) unwaith eto:

"There is no evidence to suggest that the fundamental principles affecting language usage are any different whether two, three or more languages are being used by one and the same speaker, and the major question is whether they differ significantly from cases where only one language is being used."

Diffinio dwyieithrwydd

Mwy na thebyg mai'r diffiniad o ddwyieithrwydd a allai adlewyrchu'r cysyniad amlycaf ymhlith y cyhoedd yw un Mackey (1957:51) a ddiffiniodd dwyieithrwydd yn y termau mwyaf niwlog:

"We shall...consider bilingualism as the alternate use of two or more languages by the same individual."

neu un Weinreich (1953:5), a ddiffiniodd dwyieithrwydd fel "the practice of alternately using two languages."

Er gwaetha'r gred gyffredinol sydd wedi'i gorsymleiddio fod dwyieithrwydd yn ymwneud yn syml â defnyddio dwy iaith, nod yr uned hon yw ymchwilio i gymhlethdodau'r term a adlewyrchir hefyd gan ystod y diffiniadau a fabwysiadwyd gan amryw academyddion dros y blynyddoedd.

Yn ôl Baetens Beardsmore (1991:1):

“Bilingualism as a concept has open-ended semantics.
Definitions are numerous and are continually being proffered
without any real sense of progress being felt as the list extends.”

Diffiniwyd y term “dwyieithog” mewn sawl ffordd ar draws yr hyn y gellid ei ystyried yn gontinwrm eang ei ystod o hyfedredd ieithyddol mewn dwy iaith, ond sy’n gallu, serch hynny, cael ei gategoreiddio’n ddicotomi o’r hyn y cyfeiriodd Baetens-Beardsmore (1991) ato fel diffiniadau isaf a mwyaf.

Diffiniadau uchaf posibl

Diffiniad a ddyfynnir yn aml yw un Bloomfield (1933) a ddiffiniodd dwyieithrwydd fel “the native-like control of two languages” ond a ddisgrifiodd hyn hefyd trwy ychwanegu:

“Of course, one cannot define a degree of perfection at which
a good foreign speaker becomes a bilingual: the distinction
is relative.”(1933: 55-56).

Mae’r dull “uchaf posibl” hwn o ddiffinio dwyieithrwydd wedi’i ailadrodd gan bobl eraill, megis Oestreicher (1974:9) sy’n datgan, er enghraifft fod dwyieithrwydd yn ‘...complete mastery of two different languages without interference.’

Yn yr un modd, mae Christopherson (1948: 4), yn ei ddiffinio fel: “... a person who knows two languages with approximately the same degree of perfection as unilingual speakers of those languages.”

Diffiniadau isaf posibl

Efallai yr adlewyrchir y dull “isaf posibl” o ddiffinio dwyieithrwydd orau yn niffiniad Haugen (1953:7) sy’n datgan ‘bilingualism is understood... to begin at the point when the speaker of one language can produce complete meaningful utterances in the other language’. Gan awgrymu unwaith eto lefelau *isaf posibl* o hyfedredd gofynnol, mae Diebold (1964) yn cyfeirio at ‘ddwyieithrwydd cychwynnol’ wrth i MacNamara (1969:82) ddiffinio’r unigolyn dwyieithog fel “a person who, for example, is an educated speaker of English and who can read a little French. This means that bilingualism is being treated as a continuum, or rather a series of continua, which vary among individuals along a variety of dimensions.”

Gellir dirnad materion amlwg sy’n gysylltiedig â’r fath ddiffiniadau ar ddau bwynt eithafol y continwrm, gan ofyn cwestiynau fel, beth mae ‘meistrolaeth lwyr (complete mastery)’ a ‘rheolaeth debyg i frodor (native-like control)’ yn ei olygu mewn gwirionedd? Nid yw “siaradwyr brodorol” eu hunain yn darparu *norm* o hyfedredd iaith disgwylidiedig ac, fel y gwelsom yn flaenorol, arsylwodd Bloomfield ei hun ei bod hi’n anodd sefydlu’r radd berffeithrwydd mae’n ei gymryd er mwyn i siaradwr iaith dramor da fod yn ddwyieithog, gan ddatgan fod ‘y gwahaniaeth yn gymharol’ (1933:56).

Fodd bynnag, p’un a ydym yn delio ag un iaith, dwy iaith neu’n fwy, mae’n bwysig yn y lle cyntaf i ystyried yn union pa *feini prawf* y mabwysiadwn i asesu hyfedredd ieithyddol. Mae’r fath ystyriaethau’n ein harwain yn syth i wahaniaethu rhwng dau ddimensiwn sylfaenol, sef:

- Gallu neu sgiliau
- Defnydd neu gyd-destun

Mae Mackey (1962) yn cyfeirio at y dimensiynau hyn yn briodol fel:

- Gradd
- Swyddogaeth

Wrth gwrs, mae'n eithaf posibl i berson fod yn fwy "medrus" wrth ddefnyddio iaith nad yw ef/hi byth yn ei defnyddio nag unigolyn arall sy'n ei defnyddio drwy'r amser, ond gyda gallu cyfyngedig. Gall y dicotomi hwn (y cyfeirir ato gan Baetens Beardsmore (1991: 44) fel y dicotomi trawsffurfiol-cenhedlol) wrth gwrs, fod yr un mor berthnasol i ystod o hyfedreddau neu sgiliau mewn meysydd eraill, fel y cyfansoddwr abl sydd prin yn cyfansoddi unrhyw gerddoriaeth gystal â phobl eraill nad ydynt yn defnyddio'u sgiliau neu eu doniau, boed yn gynhenid neu wedi'u datblygu. O ran asesu hyfedredd, wrth gwrs, mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol mewn perthynas â mater dilysrwydd. Serch hynny, wrth asesu "hyfedredd" iaith yn ymarferol, gallwn osod pob un o'r dimensiynau hyn ar gontinwmm yn ddamcaniaethol:

- Lefelau defnydd mwyaf gyda lefelau gallu isaf
- Lefelau defnydd isaf gyda lefelau gallu "mwyaf"

Byddai hyn yn ein galluogi ni i osod y ddau ddimensiwn ar echel ar wahân er mwyn gwneud cymariaethau a dangos sut mae unigolion yn amrywio ar draws y ddwy echel. Fodd bynnag, mae'r pethau ymarferol sydd ynghlwm mor enfawr, maent yn gwneud dilysrwydd a dibyniaeth y fath ymarfer yn hynod ddadleuol fel y byddwn yn gweld trwy astudio'r newidynnau sydd ynghlwm wrth drafod y ddau ddimensiwn yn ei dro.

Gradd/Gallu:

Mae'r gallu i ddefnyddio iaith yn cwmpasu ystod o wahanol sgiliau. At ei gilydd, rhennir y rhain fel rheol yn ddau gategori:

Llafaredd: y gallu i siarad a deall

Llythrennedd: y gallu i ddarllen ac ysgrifennu.

Fodd bynnag, gellir rhannu pob un o'r rhain ymhellach yn:

- Sgiliau Cynhyrchiol: Siarad ac Ysgrifennu
- Sgiliau Derbyngar: Gwrando a Darllen

ac felly cynhyrchu gwahanol gategoriâu:

Sgiliau iaith

	Llafaredd	Llythrennedd
Sgiliau derbyngar	Gwrando/Dealltwriaeth	Darllen
Sgiliau Cynhyrchiol	Siarad	Ysgrifennu

Mae Baetens Beardsmore (1991:19-20,Tabl 1) yn dangos sut mae gwahanol lefelau hyfedredd ar draws y pedwar sgil allweddol yn cyfuno i greu ystod eang o gyfnewidiadau posibl mewn gallu ieithyddol *cyffredinol*.

Ystyriaeth ddiddorol yw ydy meddwl yn sgil bellach ai peidio (Skutnabb-Kangas, 1981), yr hyn y mae Cummins (1984a) wedi cyfeirio ato fel “cognitive competence in language.” Gellir dadlau hefyd, wrth gwrs, ydy person yn *meddwl* mewn iaith ai peidio neu ydy meddwl yn broses heb fod yn ieithyddol. Onid yw baban newydd-anedig yn meddwl? Ydy caffaeliad iaith dilynol, felly’n effeithio ar y *broses* wybyddol wirioneddol?

Gall cymharu’r pedwar sgil allweddol ar draws y ddwy iaith gynhyrchu casgliad o hyfedreddau a lefelau amrywiol, yr hyn y mae Baker (2011:7) yn cyfeirio ato fel “sgiliau mewn sgiliau, gan ddatgan:

“The four basic language abilities do not exist in black and white terms. Between black and white are not only many shades of grey; there also exist a wide range of colours.”

“A pupil may be able to understand spoken English and Welsh, speak English fluently but Welsh only haltingly, read in Welsh with a reading age of six and in English with a reading age of eight, write poorly in English and not at all in Welsh. Is that pupil bilingual?” (Baker,1988: 2)

Felly, mae asesu hyfedredd ieithyddol gan gyfeirio dim ond at y pedwar sgil sylfaenol, yn gorsymleiddio’r mater yn sylweddol. Gallwn gymhwyso *is-ddimensiynau* sy’n rhan annatod o’r broses ymhellach. Fodd bynnag, ceir anghytundeb a dadlau o ran y math a nifer yr is-sgiliau sy’n ymwneud â hyfedredd iaith. Lle mae Oller a Perkins (1980) wedi dadlau bod ffactor byd-eang o hyfedredd iaith (gweler Baker, 2011:12), mae Hernandez-Chavez et al. (1978) yn haeru bod 64 cydran. Fodd bynnag, mae Mackey (1968: 557), yn cyfeirio at y canlynol:

- Geirfa
- Gramadeg
- Ystyr / Semanteg
- Ynganiad / ffonoleg
- Arddull

Mae gosod y pedwar sgil sylfaenol a’u his-ddimensiynau ar fatrics yn ein galluogi ni i gymharu lefelau hyfedredd dwyieithog ar draws y ddwy iaith (h.y. y lefelau *prïodol* yn ieithoedd A a B fel a ddengys gan Mackey (1968)), sydd felly’n ein galluogi ni i ddangos nad oes angen cydberthyniad rhwng is-ddimensiynau mewn un iaith a’r llall.

Is-ddimensiynau sgiliau iaith (Mackey,1968)

Is-ddimensiynau	Sgiliau
-----------------	---------

	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
Ffonoleg				
A				
B				
Gramadeg				
A				
B				
Geirfa				
A				
B				
Semanteg				
A				
B				
Arddull				
A				
B				

Yn unol â'r diffiniad a ddarperir gan Macnamara (1969:82) felly, mae'r fath dddadansoddiad o sgiliau'n atgyfnerthu'r pwynt y dylid ystyried dwyieithrwydd fel "a continuum, or rather a series of continua which vary among individuals along a variety of dimensions."

Felly, gellir isrannu galluoedd iaith fel siarad a gwrando yn rhannau mwyfwy microsgopig. Fodd bynnag, mae Romaine (1995:15), yn tynnu'n sylw at y ffaith fod profion yn galluogi ar gyfer asesu hyfedredd dwyieithog gyda gradd fwy o gywirdeb, er bod hynny mewn termau *ieithyddol* llwyr, 'this has been accomplished at the expense of the more qualitative differences in language proficiency which are harder to measure.'

Wrth ddelio â *mesur* dwyieithrwydd yn nes ymlaen, felly, byddwn yn gweld bod modelau mwy soffistigedig o asesu dwyieithrwydd wedi'u mabwysiadu sy'n ymgorffori agweddau ychwanegol ar hyfedredd dwyieithog fel Hyfedredd Cyfathrebu. Mae'r fath ddatblygiad yn cydnabod y ffaith fod cyfathrebu effeithiol yn cwmpasu nid yn unig ffactorau *ieithyddol* llwyr ond hefyd cydrannau cymdeithaseg iaith a chymdeithasol-ddiwyllynnol.

Swyddogaeth / Defnydd

Mae Hoffmann (1991) yn datgan bod ystyriaeth annigonol yn cael ei roi i *ddefnydd* yn y rhan fwyaf o ddisgrifiadau o ddwyieithrwydd sy'n canolbwyntio ar hyfedredd cymharol ym mhob iaith. Mae Oksaar (1983:19) yn awgrymu bod yr angen i gwmpasu *defnydd* yn ogystal â gallu (hynny yw *swyddogaeth* yn ogystal â *gradd*) fel meini prawf dilys, ac felly'n diffinio dwyieithrwydd fel 'the ability of a person to use here and now two or more languages as a means of communication in most situations and to switch from one language to the other if necessary.' Mae Mackey (1970:554) yn datgan:

"bilingualism is not a phenomenon of language; it is a characteristic of its use. It is not a feature of the code but of the message. It does not belong to the domain of *langue* but of *parole*."

Mae hyn, felly'n codi materion o *ddefnydd* iaith unigolion a'r cyd-destunau neu'r *parthau* cymdeithasol y mae gwahanol ieithoedd yn cael eu mabwysiadu at ddibenion cyfathrebu, yr hyn y mae Baetens Beardsmore (1991:8) yn cyfeirio ato fel "arbenigedd swyddogaethol" (functional specialization). Mae Edwards (2006:8) yn datgan "at least for the purpose of defining bilingualism in any generally applicable fashion - most modern treatments acknowledge that any meaningful discussion must be attempted within a specific context, and for specific purposes." Yn Narlleniad 1 (tt.165-166), mae Cummins (2000) yn cyfeirio at "berspectif rhyngweithiol" (interactionist perspective) ar allu iaith:

"Current theoretical approaches to the construct of language have shifted from viewing proficiency as a trait that individuals possess in varying degrees to seeing it as inseparable from the contexts in which it will be manifested. Thus, Bachman and Palmer (1996) use the term 'ability-task' to refer to the unit of ability and task (context) characteristics. Chapelle (1998: 44) similarly notes that a construct such as 'vocabulary size' 'cannot be defined in an absolute sense but instead is a meaningful construct only with reference to a particular context.' "

Defnyddiwyd y term "parth" am y tro cyntaf gan Fishman (1972) i ddangos sut mae siaradwyr yn gwahaniaethu eu defnydd iaith yn swyddogaethol gan gyfeirio at deulu, cyfeillgarwch, crefydd, addysg a chyflogaeth fel y prif barthau.

Mae Baker (2011) yn dangos er mwyn deall sut defnyddir ieithoedd, rhaid ystyried y cyd-destun cymdeithasol maent yn gweithio ynddynt gan y bydd pobl ddwyieithog yn dewis iaith ar sail y parth (cyd-destun) ac â phwy maen nhw'n siarad (targedau). Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng *dwyeithrwydd swyddogaethol* a *chefndir iaith*. Yn wahanol i'r olaf, a all gynnwys profiadau ieithyddol heb fod yn gyfranogol (gwylwyr) yn ogystal â phrofiadau cyfrannog, mae dwyeithrwydd swyddogaethol yn cynnwys y defnydd personol o sgiliau iaith cynhyrchiol a derbyngar a phum cydran:

Pwy yw'r siaradwr?

Pwy yw'r gwrandäwr?

Beth yw'r sefyllfa neu'r cyd-destun?

Beth yw testun y sgwrs?

Beth yw'r diben?

Mae Fishman (1965) yn cyfeirio ar ffactorau niferus sydd ynghlwm yn nefnydd iaith y siaradwr dwyieithog "who will speak what language, when and to whom." Mae ymchwil gan Fishman, Cooper a Ma (1971) a ddyfynnir yn aml yn egluro'r agwedd hon yn glir iawn. Dangosodd yr astudiaeth sut mabwysiadwyd y defnydd o Sbaeneg a Saesneg ar gyfer gwahanol barthau ymhlith pobl ddwyieithog yng nghymdogaeth Jersey City, New Jersey Puerto Rico, a oedd yn cynnwys y cartref, ysgol, eglwys a'r lle gwaith. Lle'r oedd yr iaith a fabwysiadwyd yn y cartref a'r eglwys yn Sbaeneg gan fwyaf gyda'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn yr ysgol, cyfathrebu yn y Saesneg yn y gwaith ac mewn parthau biwrocrataidd eraill.

Yn ôl Grosjean (1982: 235), oherwydd gwahaniaethu swyddogaethol, "balanced bilinguals, those who are equally fluent in both languages, are probably the exception and not the norm. A bilingual develops the four basic skills in each

language ... to the levels required by the environment, and it is rare that an identical level is needed for each skill."

Gellir gweld effaith amryw newidynnau ar y ffordd y mae unigolyn yn mabwysiadu gwahanol ieithoedd ar gyfer gwahanol gyd-destunau neu barthau, er enghraifft, mewn perthynas â defnyddio terminoleg arbenigol. Er enghraifft, byddai'r duedd i fabwysiadu gwahanol ieithoedd (mewn cyferbyniad â'r *ddwy* iaith) i addysgu gwahanol bynciau yn yr ysgol (h.y. parthau dysgu) yn arwain yn gyffredinol at fwy o hyder a hyfedredd mewn un iaith yn fwy na'r llall. Am y rheswm hwn, mae Baetens Beardsmore (1991:7) yn tynnu ein sylw at y diffiniad uchaf posibl a gynigiwyd gan Halliday, McKintosh a Streven (1970) sy'n defnyddio'r term *amlieithrwydd cyfartal* (*ambilingualism*) "to describe the person who is capable of functioning equally well in either of his languages in all domains of activity and without any traces of one language in his use of the other." Mae Baetens Beardsmore (1991:7) yn cyfeirio at y fath "unigolyn dwyieithog cytbwys" fel "*a rare if not non-existent species*" ac mae'n cwestiynu sut gellir bod yn unigolyn dwyieithog cytbwys ar draws pob swyddogaeth heb fod wedi byw bywyd dwbl "in which all of his activities in one language have been or could be replicated in the other."

Mae Baetens Beardsmore (1991) yn pwysleisio na ddylid drysu *amlieithrwydd cyfartal* (*ambilingualism*) gyda *cydradd-ddwyieithrwydd* (*equilingualism*), er gwaetha'r pwyntiau tebygrwydd posibl. Defnyddir *cydradd-ddwyieithrwydd*, y cyfeirir ato hefyd fel *dwieithrwydd cytbwys*, i ddisgrifio lefelau hyfedredd lle ystyrir bod y *ddwy* iaith fwy neu lai'n gyfartal ac yn gyffredinol, mewn termau bras, yn cyfateb i lefelau siaradwyr uniaith yr ieithoedd hynny. Serch hynny, o gymharu â'r siaradwyr uniaith hynny, byddai pobl *cydradd-ddwyieithog* yn dangos arwyddion o *ymyrraeth* o un iaith ar y llall (gweler isod). Ac eto, fel y mae Baetens Beardsmore (1991:9) yn awgrymu "it might be...that monoglot terms of reference are irrelevant in the examination of the bilingual ability of an individual who functions equally well in two languages in a given society." Dylid ystyried hyn hefyd yng ngoleuni barn Grosjean (1982) fod rhywun *dwieithog* yn fwy na dim ond cyfuniad o ddau unigolyn unieithog. At hynny, o safbwynt *ieithyddol* bur, lle nad yw'r unigolyn *amlieithog cyfartal* (os ydy hwnnw neu honno'n bodoli o gwbl) o ddiddordeb ymchwilol gwirioneddol, mae'r unigolyn *cydradd-ddwyieithog* a'r *unigolyn dwieithog nad yw'n rhugl* (y gellir dadlau bod yr un olaf yn cynrychioli mwyafrif yr achosion) "represents a more useful case for investigation in both sociological and linguistic terms." (Baetens Beardsmore, 1991:9).

Mae Fishman et al. (1971); yn datgan:

"Bilinguals who are equally fluent in both languages (as measured by their facility and correctness overall) are rarely equally fluent in both languages about *all possible topics*; this phenomenon is invariably a reflection of the fact that the societal allocation of functions is normally imbalanced and in complimentary distribution rather than redundant."

Bydd defnydd iaith mewn grwpiau neu gymdeithas yn faes astudiaeth a fydd yn ffocws Modiwl ECDA-7011C gan gynnwys testun deuglosia a bodolaeth ieithoedd

“uchel” ac “isel mewn cyd-destun cymdeithasol. Serch hynny, dylid gwerthfawrogi ei bod hi’n amhosibl dadansoddi’r prif ffactorau sy’n ymwneud â dwyieithrwydd unigol heb ystyried y cyd-destun cymdeithasol y mae’r unigolion yn bodoli ynddo. Lle bydd yr agweddau cymdeithasol yn cael eu hymhelaethu arnynt yn y modiwl nesaf, dylai fod yn ddigon am y tro i nodi bod unigolion yn cael eu cyflyru (neu eu gorfodi) i ufuddhau i bwysau allanol i fabwysiadu un iaith yn hytrach na’r llall at rai dibenion. Gallai’r fath ddewis adlewyrchu, er enghraifft, wendid neu gryfder cymharol unigolyn mewn un iaith neu fabwysiadu arferion ieithyddol mewn cymdeithas yn gyffredinol.

Mae Skutnabb-Kangas (1981:30-31) yn mynegi sut mae’n debygol y byddai gwahaniaethu swyddogaethol rhwng ieithoedd mewn cymdeithas yn arwain yn y pen draw mewn athreuliad ar y lefel *unigol*: “since one would be able to use only one of the languages in certain domains, the ability to use the other language in those domains would decline, or perhaps never be ‘fully acquired’.”

Mae Edwards (1994:102-3) yn dadlau bod y defnydd o’r ddwy iaith ar gyfer parth penodol yn anghynaliadwy yn y pen draw ac yn cymharu’r sefyllfa gyda’r hyn y mae’n cyfeirio ato fel “Cyfraith Gresham” lle mae bodolaeth dau arian y mae modd eu defnyddio yn y farchnad yn ildio i un yn unig yn y pen draw os bydd yn profi’n fwy proffidiol neu fanteisiol i’r defnyddiwr.

Fodd bynnag, mae Fishman (1972) yn dadlau bod unrhyw duedd ymhlith unigolion i ddyrannu defnydd iaith i amryw barthau, fel cyd-destunau crefyddol er enghraifft, yn sicrhau neu’n gallu cynorthwyo hyfywedd parhaus yr ieithoedd hynny. Mae’n dadlau ei bod hi’n anarferol i bobl ddwyieithog fod yr un mor rhugl ym mhob parth defnydd a’u bod fel rheol yn dyrannu gwahanol ieithoedd i wahanol swyddogaethau. Fel Edwards (1994: 102-3), mae’n haeru bod unrhyw gymdeithas sy’n defnyddio’r ddwy iaith yr un mor hyderus ym mhob parth yn gorffen bod yn ddwyieithog a gallai’r fath ddwyieithrwydd “cytbwys” arwain yn y pen draw at dranc iaith.

Pa bynnag ffordd, yn aml iawn, diffyg defnydd ar draws pob parth sy’n arwain yn anochel at wanhad graddol sgiliau iaith mewn meysydd gweithgarwch eraill yn ogystal â gostyngiad cynyddol mewn defnydd ar draws parthau *sy’n bodoli*, ac felly’n arwain at fwy o athreuliad.

Mae’r drafodaeth uchod yn adlewyrchu cymhlethdod cydadwaith newidynnau yn y rhyngwyneb rhwng dwyieithrwydd unigol a chymdeithasol a dylanwad ac effaith pob un ar ei gilydd. Mae Baker (2011:71) yn cyfeirio at gyd-destunau “atodol” a “thynol”. Dyma dermau y mabwysiadodd Lambert (1974) yn wreiddiol mewn perthynas â’r *unigolyn*, gan ddefnyddio “atodol” o ran y canlyniadau gwybyddol cadarnhaol o fod yn ddwyieithog neu’r canfyddiad o fod yn ddwyieithog, lle’r oedd dwyieithrwydd “tynol” yn cyfeirio at effeithiau negyddol. Fodd bynnag, fel y bydd yn cael ei astudio ym modiwl ECDA-7011C, mabwysiadwyd y ddau derm yn ddiweddarach gan Landry, Allard a Théberge (1991) mewn perthynas â chyd-destun *cymdeithasol* ac unrhyw ganfyddiadau neu agweddau cadarnhaol neu negyddol tuag at ddwyieithrwydd.

Gellir gweld perthnasedd y cysyniadau hyn i *barthau defnydd iaith* gan fod parthau presennol yn fwy tueddol o fynd trwy athreuliad pellach mewn unrhyw gyd-destunau tynol ieithoedd mwyafrifol-lleiafrifol, gan arwain yn y pen draw o bosibl at dranc iaith. Yn y fath gyd-destunau, mae unigolion yn aml yn amharod i olrhain

hyfedredd yn y *ddwy* iaith (yn enwedig yr iaith leiafrifol) os nad ydynt yn sicr y bydd angen amdani. Fodd bynnag, mae cyd-destunau atodol yn fwy tebygol o fod yn ffafriol i barthau defnydd iaith ehangach, a ychwanegir atynt gan fwy o gymhellant ymhlith unigolion i ddefnyddio'r *ddwy* iaith, ac felly'n cynnal hyfedredd dwyieithog.

Datblygiad Dwyieithog:

Fel mewn perthynas â disgrifio lefelau hyfedredd dwyieithog, mae terminoleg sy'n ymwneud â *datblygiad* dwyieithog weithiau'n cael ei defnyddio'n gyfystyr gyda mwy nag un term ar gyfer agwedd benodol. Fodd bynnag, cydnabyddir dau derm sylfaenol ar raddfa eang:

- Dwyieithrwydd sylfaenol
- Dwyieithrwydd eilaidd

Mae *dwyieithrwydd sylfaenol* yn golygu y ceir hyfedredd deuol yn gymharol gynnar mewn bywyd, lle mae *dwyieithrwydd eilaidd* yn arwydd y cafwyd yr ail iaith yn nes ymlaen, fel rheol trwy ryw fath o gyfarwyddyd systematig.

Fodd bynnag, nid yw'r ddau gategori o reidrwydd yr un mor gyfyngedig. Gallai fod dimensiwn *diwylliannol* i ddwyieithrwydd sylfaenol hefyd.

Weithiau, cyfeirir at y ddau derm fel *dwyieithrwydd amgylchiadol* (circumstantial bilingualism) a *dwyieithrwydd dewisol* (elective bilingualism) yn y drefn honno, fel a wnaed gan Skutnabb-Kangas (1981) ac mae Adler (1977) yn cyfeirio at ddwyieithrwydd sylfaenol fel *dwyieithrwydd penodedig* (ascribed bilingualism) ac at ddwyieithrwydd eilaidd fel *dwyieithrwydd a gyflawnwyd* (achieved bilingualism).

Hwyrach fod rhestr bellach Baetens Beardsmore (1991:28-29) o dermau i weld yn atgyfnerthu'r pwynt a wnaed yn gynharach am y dryswch posibl a all arwain at amllder y derminoleg a fathwyd gan amryw academyddion. Mae hyn yn deillio o bosibl o'u dymuniad i ddisgrifio amryw sefyllfaoedd yn fwy penodol, ond gall eu hannibyniaeth broffesiynol arwain at anghysondeb neu ddyblygu. Serch hynny, ymddengys y bydd rhai'n gwahaniaethu datblygiad dwyieithog ar sail oedran y caffaeliad iaith:

- Dwyieithrwydd cynnar, sy'n golygu bod y *ddwy* iaith wedi'u datblygu yn y cam cyn llencyndod a chyfeirir ato gan bobl eraill fel "dwyieithrwydd babandod" (Haugen,1956)
- Dwyieithrwydd hwyr lle daw'r unigolyn yn hyfedr mewn iaith ychwanegol ar ôl troi oddeutu 11 oed

Mae'r elfen gymdeithasoli'n wahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau a'r ffaith fod caffaeliad iaith cynnar yn angen hanfodol i unigolyn ddeall ei amgylchedd a chael ei ddeall.

Caiff y termau *cydamserol* ac *olynol* eu mabwysiadu hefyd mewn perthynas â datblygiad dwyieithog. Mae McLaughlin (1984) yn disgrifio'r cyntaf fel cyd-destun lle caiff plentyn ei amlygu i fwy nag un iaith o'r cychwyn cyn iddo droi'n 3 blwydd oed (fel rheol, cysylltir hyn gyda'r syniad o "un person-un iaith" lle mae pob rhiant yn siarad iaith wahanol â'r plentyn) a dwyieithrwydd *olynol* sy'n berthnasol i sefyllfaoedd lle ychwanegir yr ail iaith yn dilyn hynny. Gydag ychydig eithriadau, cydnabuwyd yn gyffredinol fod gan gaffaeliad dwyieithog cynnar fanteision dros

ddwyieithrwydd hwyr. Mae Baetens Beardsmore (1991:32-35) yn ceisio darparu barn gytbwys o'r ddadl sy'n amgylchynu'r ddau a chaffael iaith arall.

Haerir hefyd y gall y ffactorau canlynol effeithio ar hyfedredd ieithyddol unigolion.

- oedran
- deallusrwydd
- cof
- agwedd
- cymhelliant
- rhyw

Er gwaethaf tuedd gyffredin efallai i drin agwedd a chymhelliant fel cyfystyron, dylid gwerthfawrogi y gall y ddau fod yn wahanol iawn weithiau. Er enghraifft, mae meddu ar gasineb at iaith er gwaetha'r angen i gaffael lefel hyfedredd er mwyn cael gwaith, neu hoffer heb ddymuniad i ddysgu. Fodd bynnag, mae'r drafodaeth hon unwaith eto'n ffinio ag astudiaeth o *gaffaeliad iaith* a fydd yn agwedd ar ddwyieithrwydd a astudir mewn modiwl diweddarach. Serch hynny, mae'n egluro unwaith yn rhagor cydgysylltiad amryw gydrannau'r cwrs.

Lefelau Hyfedredd Ieithyddol

Mabwysiadwyd amryw dermau er mwyn disgrifio unigolion sy'n cael eu hachredu gyda lefelau uchel o hyfedredd "cyfartal" honedig dwy iaith neu'n rhagor e.e. *pobl ddwyieithog gytbwys / pobl amlieithog cyfartal / pobl cydradd-ddwyieithog* ond, fel yr awgrymwyd yn flaenorol, ceir dryswch o ran pa derm ddylid ei ddefnyddio (Baetens Beardsmore,1991).

Rydym eisoes wedi gweld y gellir rhoi term i'r pedair sgil iaith sylfaenol:

- Dwyieithrwydd Derbyngar (neu Oddefol) (Gwrandu a Darllen)
- Dwyieithrwydd Cynhyrchiol (neu Weithredol) (Siarad ac Ysgrifennu).

Mae'r sgiliau Derbyngar a Chynhyrchiol yn cydberthyn ac yn ddwy ochr o'r un geiniog yn eu defnydd pob dydd. Oni bai fod un yn dewis yn *fwriadol* i beidio ag ymarfer sgiliau cynhyrchiol, fodd bynnag, fel rheol ystyrir y gallu i ddefnyddio dim ond sgiliau derbyngar fel arwydd o lefel hyfedredd ieithyddol is. Am y rheswm hwn, cyfeirir at y gallu i ymarfer sgiliau derbyngar yn unig fel *lled-ddwyieithrwydd*. Fodd bynnag, ni ddylid drysu hwn gyda'r term *lledieithyddiaeth* neu *ddwbl lledieithyddiaeth*.

Lled-ieithyddiaeth

Ni ddylid drysu lledieithyddiaeth gyda lled-ddwyieithrwydd a fathwyd gan Hockett (1958) i ddisgrifio hyfedredd mewn sgiliau *derbyngar* yn unig.

Mae lledieithyddiaeth yn derm a ddefnyddiwyd yn wreiddiol i ddisgrifio'r rheiny nad oeddent yn hyfedr yn y naill iaith na'r llall ac a ddiffiniwyd gan Hansegård (1975) fel chwe gwendid ieithyddol

- maint ac ehangder geirfa
- cywirdeb
- annibyniaeth (prosesu iaith yn anymwybodol)
- bathu (creu iaith)
- rheolaeth emosiynol a gwybyddol o iaith

- ystyron a delweddau

Yn hytrach na chyfeirio at y gallu i ddefnyddio dim ond sgiliau derbyngar mewn iaith benodol felly, mae lledieithyddiaeth yn disgrifio cyflwr o *hyfedredd isel yn y ddwy iaith* ac anallu i ddefnyddio'r un ohonynt "yn fedrus".

Ym 1927, disgrifiodd Bloomfield hyfedredd iaith dwyieithog llwythwr yr Indiaid Cochion fel a ganlyn:

"White Thunder, a man around 40, speaks less English than Menomini, and that is a strong indictment, for his Menomini is atrocious. His vocabulary is small, his inflections are often barbarous, he constructs sentences of a few threadbare models. He may be said to speak no language tolerably." (Bloomfield, 1927: 437).

Ers hynny, mae lledieithyddiaeth wedi'i hystyried yn fater mewn perthynas â siaradwyr o grwpiau lleiafrifol ac mae'n cymharu gyda syniad Hansegård's (1975) o *halvspråkighet* mewn perthynas â phlant y Ffindir sydd wedi mewnfudo ac yn byw yn Sweden lle mae eu dwyieithrwydd Ffinnaidd-Swedaidd yn cael ei gymharu'n anffafriol gyda siaradwyr uniaith yr ieithoedd hynny yn eu gwledydd priodol. Fodd bynnag, mae Baker (2011:10) yn cyfeirio at feirniadaeth o'r defnydd o'r term ac yn crybwyll pum mater sy'n ymwneud ag ystod o ffactorau gwaelodol, gan gynnwys y rhai sydd o natur wleidyddol ac ideolegol. Fel y mae Edwards (2006:10) yn datgan, gall y term lledieithyddiaeth felly, adlewyrchu agweddau *cymdeithaseg iaith* dyfnach megis:

- grwpiau iaith fwyaf a lleiafrifol
- dominyddiaeth ac israddoldeb
- gormes ac erledigaeth

Mae Baetens Beardsmore (1991:10-14) hefyd yn trafod y ffenomenon ieithyddol hwn a'i arwyddocâd *gwleidyddol*, gan nodi bod y ddadl i gefnogi'r cysyniad yn cael ei wrth-ddweud gan lwyddiant rhaglenni trwytho dwyieithog Ffrangeg-Saesneg yng Nghanada, y gallwn ychwanegu llwyddiant rhaglenni Cymraeg-Saesneg tebyg yng Nghymru atynt. Fel ffenomenon *ieithyddol*, cafwyd tueddiadau diweddarach i wrthod y syniad, fel y dywed Skutnabb-Kangas (1984: 248-49):

"I do not consider semilingualism to be a linguistic or scientific concept at all. In my view it is a political concept."

a Martin-Jones (1989) a gyfeiriodd ato fel "a half-baked theory of communicative competence."

Serch hynny, mae Baetens Beardsmore (1991:13) yn cynnig y gallai'r term feddu ar rywfaent o "ddefnyddioldeb cyfyngedig" wrth ddisgrifio unigolion sydd, er gwaetha'u hanallu i gaffael hyfedredd ail iaith (L2) mewn newid o gyd-destun ieithyddol, yn colli meistrolaeth ar eu hiaith gyntaf (L1) ar yr un pryd oherwydd diffyg defnydd mewn cyswllt cymdeithasol; sefyllfa sy'n cael ei chymharu â disgrifiad T'Sou o SWONAL Tsieina.

Mae'r drafodaeth hon o led-ieithyddiaeth wedi'n harwain ni i ystyried iaith fel ffenomenon grymus a dylanwadol mewn termau *gwleidyddol*, mater y byddwn yn ei astudio'n ddyfnach yn y modiwl nesaf (Dwyieithrwydd Cymdeithasol: ECDA-7011C).

Bernir pobl, grwpiau, cymunedau a hyd yn oed gwledydd yn aml ar lefel gymdeithasol ac addysgol gan eu defnydd iaith. Er enghraifft, gellir ystyried grym ffonoleg neu acen mewn defnydd iaith a sut gellir labelu'n unol â hynny mewn termau cymdeithasol, hyd yn oed os na fydd o reidrwydd yn adlewyrchu lefel hyfedredd ieithyddol neu allu deallusol unigolyn. O ran agweddau fel dominyddiaeth wleidyddol a darostyngiad, felly mae iaith yn arf gwleidyddol eithriadol o bwerus.

BICS a CALP

Wrth drafod lefelau hyfedredd ieithyddol, gwahaniaethodd Cummins (1984b) rhwng yr hyn y cyfeiriodd ato fel:

- Sgiliau Cyfathrebu Rhyngberonol Sylfaenol (BICS) a
- Hyfedredd Iaith Academaidd Gwybyddol (CALP)

Mae'r rhain yn dermau a newidiodd yn ddiweddarach i Hyfedredd Iaith Sgwrsio a Hyfedredd Iaith Academaidd yn y drefn honno. Gellir dweud bod y gwahaniaethu hwn mewn lefelau a hyfedredd iaith yn cysylltu hefyd â'r hyn y cyfeiriodd Skutnabb-Kangas a Toukomaa ato'n gynharach fel:

- Rhuglder ar yr wyneb ac
- Agweddau ar hyfedredd iaith academaidd cysylltiedig

Mae Sgiliau Cyfathrebu Rhyngberonol Sylfaenol yn rhai a ddefnyddir ar lefel arwynebol mwy gwybyddol, fel mewn sgwrs gyffredin pob dydd, lle mae Hyfedredd Iaith Academaidd Gwybyddol yn ofynnol ar gyfer sefyllfaoedd fel astudiaeth academaidd. Mae Baker (2008: 175) yn egluro'r gwahaniaethu yn Ffigur 1:

Ffigur 1:

Prosesau Gwybyddol	Hyfedredd Sgwrsio	Hyfedredd Iaith
Gwybodaeth Dealltwriaeth Defnydd		Ynganiad Geirfa Gramadeg
..... Ar yr wyneb		
Dadansoddiad Synthesis Gwerthusiad		Ystyr Semantig Ystyr Swyddogaethol
Hyfedredd Gwybyddol / Academaidd		

Felly, mae gwahaniaeth Cummins (1984b) rhwng BICS a CALP yn ein helpu ni i wahaniaethu rhwng rhuglder sgwrsio a hyfedredd iaith academaidd. Mae Sgiliau Cyfathrebu Rhyngberonol Sylfaenol yn sgiliau ieithyddol yn gysylltiedig â chyd-destun "pob dydd" cyffredin y gellir eu hasesu ar sail geirfa a chystrawen gywir etc.

Mae Sgiliau Hyfedredd Iaith Academaidd Gwybyddol yn gysylltiedig ag agweddau ieithyddol mewn profion deallusrwydd ac yn cynnwys y gallu i ddadansoddi a syntheseiddio gwybodaeth er enghraifft.

Mae gan y gwahaniaeth hwn rhwng lefelau hyfedredd iaith berthnasedd penodol yn addysg plant. Ar sail eu lefelau rhuglder BICS amlwg, mae plant yn aml yn ymddangos yn ddigon medrus i gael eu haddysgu trwy gyfrwng eu hail iaith. Fodd bynnag, yn aml iawn priodolir y bai am unrhyw anallu, gwendid neu fethiant *cychwynnol* a ddangoswyd gan y fath unigolion i addysg ddwyieithog ei hun, sydd i weld yn adlewyrchu amgyffrediad hanesyddol a honiad fod ganddo duedd i achosi dryswch meddyliol. Adlewyrchir y fath sefyllfa hefyd yng nghanlyniadau ymchwil addysgol. Er enghraifft:

1. Myfyrwyr iaith leiafrifol sy'n tangyflawni'n academaidd ar ôl cael eu trosglwyddo i wersi prif ffrwd ac sy'n ymddangos i fod yn alluog ar sail "rhuglder" canfyddedig yn eu hail iaith.
2. Mae rhai disgyblion mewn addysg drwytho Ffrangeg Canada'n ymddangos i fod ar ôl eu cyfoedion iaith gyntaf am ychydig hyd nes bod eu gallu i ymdopi â materion gwybyddol yn eu galluogi i ddal i fyny.

Fodd bynnag, mae ymchwil yng Nghanada, UDA ac Ewrop yn dangos, lle caiff disgyblion iaith leiafrifol eu caniatáu i ddefnyddio'u hiaith gyntaf yn rhannol ar gyfer eu haddysg gynnar, ni ddeuir o hyd i ohriad mewn cynnydd academaidd nac wrth ddatblygu'r iaith fwyafrifol (L2). Ar ôl datblygu sgiliau gwybyddol yn eu hiaith gyntaf, caiff y rhain eu trosglwyddo i'w hail iaith hefyd.

Mae Baker (1993:138) yn rhoi enghraifft o'r gwahaniaeth rhwng BICS a CALP a allai esbonio methiant rhai plant o gefndiroedd iaith leiafrifol mewn system addysg iaith fwyafrifol pan fydd eu sgiliau ieithyddol ar lefel CALP heb ddatblygu'n ddigonol i ymdopi â gofynion y cwricwlwm.

"Mae gennych 20 doler. Mae gennych chi 6 doler yn fwy na mi. Sawl doler sydd gennych i?"

Ar lefel CALP, byddai'r plentyn yn tynnu i ffwrdd yn gywir. Fodd bynnag, ar lefel BICS heb ddatblygu'n ddigonol, gallai ef/hi gamddehongli'r gair "mwy" trwy ddileu'r gair "na" ac wedyn adio i fyny, ac felly'n rhoi 26 fel ateb anghywir. Mewn perthynas ag addysg drwytho yn y Ffrangeg, mae Hammerly (1989:29) yn datgan:

"listeners to a second language interpret what they hear on the basis of the language or languages they know, eliminating what seems redundant, such as certain endings, little unstressed words like articles and prepositions and so forth, even though they are important in the second language."

Fel y mae Baker (2011:172) yn datgan:

"Cummins' (1984) distinction between BICS and CALP explains why such children tend to fail when mainstreamed. Their cognitive academic language proficiency is not developed enough to cope with the demands of the curriculum. What Cummins regards

as essential in the bilingual education of children is that the 'common underlying proficiency' is well developed. That is, a child's language-cognitive abilities need to be sufficiently well developed to cope with the curriculum processes of the classroom."

Mae Baker (2011: 178) yn tynnu sylw at y ffaith fod y cysyniad hwn o ddatblygiad dwyieithog wedi'i feirniadu. Mae Romaine (1995) yn dadlau ei fod yn rhy syml ac anodd ei brofi mewn ffordd empirig. Fodd bynnag, mewn perthynas ag ymryson Hamers & Blanc (2000:99) nad yw'n mynd i'r afael â mater dwyieithrwydd *cydamserol*, mae'n bosibl nad oedd wedi bwriadu gwneud hynny a bod y cysyniad yn ddefnyddiol yn y lle cyntaf wrth ddisgrifio datblygiad olynol L2 yn yr hyn y mae Chin & Wigglesworth (2007) (Darlleniad 1) yn cyfeirio ato fel dwyieithrwydd "dewisol".

Mae Cummins (2000) (wedi'i gynnwys yn Narlleniad 1) yn dangos yr hyn sy'n gysylltiedig â'n dealltwriaeth o hyfedredd iaith hefyd (yn ogystal â materion methodoleg addysgu) y mae'r mater ydy hyfedredd iaith plentyn wedi'i *ymgorffori o ran cyd-destun* neu wedi'i *gostwng o ran cyd-destun*.

Hyfedredd **wedi'i ymgorffori o ran cyd-destun** yw lle mae cyfathrebu a dealltwriaeth yn cael eu hwyluso gan gymorth cyd-destunol, sy'n cynnwys defnyddio iaith y corff e.e. defnyddio'r dwylo, llygaid, arwyddion, goslef y llais. Mewn sefyllfa addysgu yn y dosbarth gallai hyn hefyd gynnwys defnyddio cymhorthion neu arteffactau clyweled.


Hyfedredd **wedi'i ostwng o ran cyd-destun**, sy'n dangos sgiliau iaith gradd uwch, yw lle nad yw cyfathrebu a dealltwriaeth yn dibynnu ar gymorth neu arwyddion allanol neu gorfforol a lle ceir, er enghraifft, angen i ddadansoddi, syntheseiddio, damcaniaethu a gwerthuso.

Gellir cydberthyn y dimensiynau hyn felly i BICS a CALP (cyfeirir atynt yn Ffigur B2.3.1 yn Narlleniad 1 a Ffigur 2 isod fel Cyfathrebu Gwybyddol heb fod yn feichus a Chyfathrebu Gwybyddol Feichus yn y drefn honno) trwy osod pob dimensiwn ar gontinwm ac ar wahanol echel, gan greu pedwar cwadrant defnydd iaith felly:

- Cwadrant 1af: Cyfathrebu Gwybyddol Diymdrech Wedi'i Ymgorffori o ran Cyd-destun
- 2il Gwadrant: Cyfathrebu Gwybyddol Diymdrech Wedi'i Ostwng o ran Cyd-destun
- 3ydd Cwadrant: Cyfathrebu Gwybyddol Feichus Wedi'i Ymgorffori o ran Cyd-destun
- 4ydd Cwadrant: Cyfathrebu Gwybyddol Feichus Wedi'i Ostwng o ran Cyd-destun

Cwadrant 1^{af}

2^{il} Gwadrant



3^{ydd} Cwadrant
(Addaswyd o Cummins, 1981)

4^{ydd} Cwadrant

Fel y mae Cummins (2000) yn datgan (Darlleniad 1: 165):

“While cognitive demands and contextual support are distinguished in the framework, it is not being suggested that these dimensions are independent of each other. In fact, as Frederickson and Cline (1990) point out, increasing contextual support will tend to lessen the cognitive demands- in other words, make tasks easier.”

Byddai ymgais i osod y pedwar cwadrant ar un continwmm yn dangos cymhlethdod datblygiad a hyfedredd iaith o *fewn* y ddau bwynt eithafol.

Byddai'r rhan fwyaf yn cytuno y byddai'r lefel hyfedredd isaf yn cael ei dangos yn y Cwadrant 1af lle byddai'r iaith yn wybyddol ddiymdrech (BICS) a lle byddai'r broses gyfathrebu'n cael ei chynorthwyo gan arwyddion cymorth allanol h.y. wedi'i ymgorffori o ran gyd-destun.

Yn yr un modd, byddai'r 4ydd Cwadrant yn dangos lefelau uchel o hyfedredd gydag iaith wybyddol feichus yn ogystal ag absenoldeb unrhyw arwyddion cymorth allanol h.y. wedi'i ostwng o ran cyd-destun. Fodd bynnag, o ran datblygiad iaith, o *fewn* y ddau bwynt eithafol hynny o'r continwmm, ym mha drefn fyddwn yn gosod yr 2^{il} a'r 3^{ydd} cwadrant? Byddai'r continwmm yn dangos, er enghraifft, y gellir cynorthwyo iaith wybyddol feichus trwy gael ei hymgorffori o ran cyd-destun yn yr un ffordd ag y gellir fforddio i iaith wybyddol ddiymdrech gael ei ostwng o ran cyd-

destun ar adegau. Mewn ffordd syml iawn, felly, mae hyn yn dangos nad yw datblygiad iaith o reidrwydd yn digwydd mewn ffordd *linellol* a gall fod sawl newidyn ar waith yn y broses.

Mae'r uchod, wrth reswm, yn gysylltiedig o ran datblygu iaith unigolyn. Mae datblygiad cydamserol neu olynol ail iaith yn amlwg yn mynnu trafodaeth bellach. Fodd bynnag, cred Cummins (1981) fod hyfedredd ail iaith (L2) yng Nghwadrant 1 (rhuglder ar yr wyneb) yn gallu datblygu'n annibynnol ar ruglder ar yr wyneb y famiaith (L1), lle mae hyfedredd Cwadrant 4 yn datblygu'n gyd-ddibynnol a gellir eu hyrwyddo trwy gyfrwng un iaith neu'r llall neu'n rhyngweithiol.

Mae Darlleniad 1 hefyd yn cyfeirio at yr ymchwil ethnograffig a gynhaliwyd gan Vincent (1996) mewn perthynas â'r ail genhedlaeth o blant Salvador yn Washington sy'n nodi natur dwyllodrus rhuglder ar lefel hyfedredd sgwrsio yn unig (BICS). Mae'n cyfeirio hefyd at ddetholiad gan Gibbons (1991:3) sydd, gan ddefnyddio'r derminoleg frodorol "iaith y cae chwarae" ac "iaith yr ystafell ddosbarth", yn rhoi esboniad cadarn a chlir o'r gwahaniaeth yn nefnydd y ddwy lefel iaith yng nghyd-destun yr ysgol.

Fel y mae Gibbons (1995) (y cyfeirir ato yn Cummins, 2000) a Baker (2011: 175) yn dangos, mae gan y fframwaith hefyd berthnasedd penodol nid yn unig i asesu dysgu ond hefyd i'r fethodoleg a fabwysiadwyd wrth addysgu.

Mae Cummins (1976) wedi datblygu theori datblygiad iaith hefyd y cyfeirir ato fel y *Theori Trothwy* (gweler Baker, 2011: 167). Fframwaith damcaniaethol yw hwn sy'n paru lefelau hyfedredd gyda datblygiad gwybyddol hyfedredd dwyieithog a manteision ac anfanteision posibl gwahanol lefelau hyfedredd dwyieithog mewn perthynas â llwyddiant academaidd. Er y bydd hyn yn cael ei drafod mewn modiwl diweddarach (ECDA-7004C) oherwydd ei berthnasedd i agweddau gwybyddol ar ddwyieithrwydd, byddai o gymorth hefyd ei grybwyll yn gryno mewn perthynas â'r drafodaeth bresennol.

Mae'r Theori Trothwy yn ymgorffori'r asesiad o hyfedredd mewn termau *absoliwt* a *pherthynol*, hynny yw fel asesiad o hyfedredd ym mhob iaith mewn perthynas â siaradwyr uniaith, a hyfedredd yn y ddwy iaith mewn perthynas â'i gilydd. Cyfeirir at hyfedredd dwyieithog ar dair lefel:

- dwyieithrwydd cyfyngedig, lle ceir diffyg sgiliau priodol i oedran yn y *ddwy* iaith
- dwyieithrwydd rhannol, lle ceir datblygiad ieithyddol priodol i oedran mewn *un* o'r ddwy
- dwyieithrwydd hyfedr, lle ceir hyfedredd priodol i oedran yn y *ddwy* iaith

Prif fyrdwn damcaniaeth Cummins (1976) yw bod gan ddwyieithrwydd cyfyngedig effeithiau gwybyddol negyddol yng nghyd-destun y dosbarth, lle mae dwyieithrwydd hyfedr yn arwain at effeithiau gwybyddol cadarnhaol. Fodd bynnag, mae Cummins yn haeru bod gan ddwyieithrwydd rhannol ganlyniadau niwtral, hynny yw, dim effeithiau negyddol na chadarnhaol. Fodd bynnag, mae Bialystok (2001), yn datgan bod rhywfaint o ymchwil (Bialystok, 1988),

(Cromdal, 1999) hefyd wedi adrodd effeithiau gwybyddol cadarnhaol i bobl rannol ddwyieithog ac mae Hakuta a Diaz (1985) yn dangos y gall y fantais wybyddol fwyaf ddod o gam dwyieithrwydd cynnar pan fydd y bwlch rhwng y ddwy iaith ar ei fwyaf.

Mae'r drafodaeth uchod yn egluro bod y llinell denau sy'n bodoli yn y maes astudio hwn rhwng *mesur lefelau* hyfedredd dwyieithog ar yr un llaw ac *effeithiau gwybyddol y lefelau hyfedredd hynny* ar y llall. Fel y nodwyd yn flaenorol, lle bydd yr astudiaeth o effeithiau dwyieithrwydd ar y wybyddiaeth yn cael ei chadw ar gyfer modiwl diweddarach, gan ystyried paramedr y modiwl presennol ac o ran mesur *lefelau* hyfedredd, crynhoir theori Cummins (1979) (y mae'n pwysleisio'u bod wedi'u bwriadu i'w defnyddio yn y cyd-destun addysgol yn unig) yn Narlleniad 1 gan Chin a Wigglesworth (2007:164):

"Cummins argues that when children begin to attend a school system where the language of education is other than their first language, they will often develop conversational language proficiency relatively quickly. However, academic language proficiency takes much longer to acquire."

Nodweddion defnyddio iaith ddwyieithog

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae Baetens Beardsmore (1991:9) yn dadlau o safbwynt *ieithyddol* bur, nad yw'r amlieithydd cyfartal fel y diffinnir gan Halliday, McKintosh a Streven (1970) (os ydy ef neu hi'n bodoli o gwbl) o unrhyw wir ddiddordeb ymchwiliol, mae'r unigolyn cydradd-ddwyieithog *a'r unigolyn dwyieithog heb fod yn rhugl* (y gellir dadlau bod yr un olaf yn cynrychioli mwyafrif yr achosion) "represents a more useful case for investigation in both sociological and linguistic terms." Mae hyn oherwydd y gallwn ymchwilio i ffenomena ieithyddol sy'n gwahaniaethu lleferydd mwyafrif helaeth y bobl ddwyieithog o siaradwyr uniaith priodol yr ieithoedd hynny.

Plethiad iaith (interlanguage)

Mae plethiad iaith yn un agwedd ar ddwyieithrwydd a all wneud lleferydd y siaradwr dwyieithog yn wahanol i'r unigolyn unieithog. Mae hwn yn faes astudio sy'n tueddu i gael ei gysylltu â chaffaeliad ail iaith, ac yn ôl Jones (1997), mae ganddo'i wreiddiau damcaniaethol mewn papur a gyhoeddwyd gan Corder (1967), "The significance of learners' errors," lle dadleuir bod cydberthyniad rhwng proses y caffaeliad iaith gyntaf a'r caffaeliad ail iaith.

Mae Corder (1967) yn dadlau bod "camgymeriadau" sy'n nodweddiadol o gaffaeliad ail iaith yn adlewyrchu'r un broses â'r rhai sy'n annatod i'r broses caffaeliad iaith gyntaf, hynny yw, ymdrechion y siaradwr i gyfathrebu ac i "arbrofi" ag iaith a dylid trin y "camgymeriadau" hynny yn yr un modd.

"...the key concepts in both cases is that the learner is using a definite system of language at every point in his development,

although it is not the adult system in the one case, nor that of the second language in the other.” (Corder, 1967:166, quoted in Jones, 1997).

Yn yr un modd, mae Nemser (1971:116) yn cyfeirio at gaffaeliad ail iaith fel cyfres o “fras systemau” sy’n newid yn y broses o symud tuag at yr iaith darged:

“An approximative system is the deviant linguistic system actually employed by the learner attempting to utilize the target language.”

Y pwynt hanfodol fan hyn yw bod y fath system sy’n cael ei mabwysiadu gan y siaradwr/dysgwr ail iaith yn annibynnol ar yr iaith gyntaf a’r ail iaith ill dau.

Mabwysiadwyd y term “plethiad iaith” gan Selinker (1972) sydd, fel y mae Jones (1997) yn nodi, yn cyfateb i “system fras” Nemser’s (1971) a’r hyn y mae Corder (1971) yn cyfeirio ato fel “tafodiaith idiosyncratig”.

Mae Jones (1997), felly’n datgan fod theori plethiad iaith yn cynnal pedwar peth:

1. bod mynegiannau dysgwyr ail iaith yn wahanol i fynegiannau’r siaradwyr brodorol
2. nid ydynt yn gyfieithiad uniongyrchol o iaith gyntaf y siaradwr
3. eu bod yn gwahaniaethu’n systematig o’r iaith darged
4. nid ydynt yn cael eu cynhyrchu’n ddamweiniol.

Mae Selinker (1972) yn cyfeirio at 5 cydran plethiad iaith yn lleferydd y dysgwr:

1. trosglwyddo iaith
2. trosglwyddo cyfarwyddyd
3. strategaethau dysgu ail iaith
4. strategaethau cyfathrebu ail iaith
5. gorgyffredinolli deunydd yr iaith darged

1. Trosglwyddo iaith

Mae hyn yn cyfeirio at olion o iaith gyntaf y siaradwr a ganfuwyd yn ei (h)ail iaith (neu ieithoedd). Gall y rhain ymddangos mewn amryw ddiwygiau gan gynnwys ffonoleg a gramadeg (gweler Ymyrraeth).

2. Trosglwyddo cyfarwyddyd

Mae hyn yn adlewyrchu elfennau o gyfarwyddyd ym mhroses dysgu’r ail iaith fel yn y duedd i fabwysiadu rhai mynegiannau tafodieithol, er enghraifft, nad ydynt yn glynu wrth y math o iaith sy’n cael ei thargedu. Weithiau, mae cyrsiau i addysgu Cymraeg i oedolion yn mabwysiadu ffurfiau tafodieithol na ddefnyddir ar raddfa eang ac felly, nid ydynt yn “briodol” ym mhob lleoliad sy’n siarad Cymraeg.

3. Strategaethau dysgu ail iaith

Gellir ystyried *symleiddio* i egluro hyn, fel pan fydd dysgwyr yn mabwysiadu fersiynau wedi’u symleiddio o agweddau gramadegol, er enghraifft, er mwyn goresgyn neu osgoi anawsterau neu anghysondebau yn yr iaith darged. Gallai rhai enghreifftiau hefyd adlewyrchu’r hyn y cyfeiriwyd atynt uchod fel Trosglwyddo Cyfarwyddyd lle mae tiwtor wedi cynghori dysgwyr i fabwysiadu mynegiannau

eraill a ddefnyddir yn llai cyffredin wrth awgrymu, er enghraifft, “Bydd pobl yn parhau i’ch deall os dywedwch...” e.e. mae dysgwyr y Gymraeg weithiau’n cael eu cynghori i ddefnyddio ffurf symlach ar orffennol y ferf gan ddefnyddio ffurf gwmpasog yn hytrach na ffurf fer fwy problematig y ferf.

4. Strategaethau cyfathrebu ail iaith

Gellir ystyried symleiddio hefyd fel strategaeth i hwyluso *cyfathrebu* yn yr ail iaith trwy wella rhuglder y cyflwyno heb orfod rhoi gormod o sylw i gywirdeb a rheolau gramadeg. Er nad yw’n “anghywir” i bob pwrpas, byddai rhai’n dadlau bod yr enghraifft flaenorol a grybwyllwyd uchod yn enghraifft o’r math hwn o strategaeth hefyd.

5. Gorgyffredinoli

Gellir disgrifio hyn fel defnyddio rheolau gramadegol cyffredinol mewn nodweddion gramadegol afreolaidd. Byddai ychwanegu “au” at “cath” a “dafad” i greu’r ffurfiau lluosog (fel gyda rhai enwau lluosog rheolaidd eraill) yn enghraifft o hyn. Fodd bynnag, fel y mae Jones (1997) yn nodi, mae Richards (1976) yn ystyried hyn hefyd fel ffordd o symleiddio ar adegau, a Selinker yn ystyried bod hyn yn broses ar wahân.

Er gwaetha’r ffaith fod hyn yn cael ei gymhwyso yn y lle cyntaf i gaffaeliad ail iaith mewn oedolion, defnyddiodd Selinker, Swain a Dumas (1975) gysyniad plethiad iaith mewn caffaeliad iaith ymhlith plant sy’n medru’r Saesneg mewn addysg drwytho i’r Ffrangeg yng Nghanada. Amlygwyd pedair nodwedd yn eu hiaith ganddynt:

1. parhaodd rai gwallau dros amser hir
2. roedd y sawl oedd yn defnyddio plethiad iaith yn deall ei gilydd
3. ailymddangosodd camgymeriadau er gwaetha’r gred iddynt ddiflannu
4. roedd system bendant wrth wraidd y plethiad iaith ar adegau, sef, trosglwyddo, gorgyffredinoli a symleiddio.

Mae Jones (1997) yn cyfeirio at rai o’r “gwallau” y mae Selinker, Swain a Dumas (1975) yn eu hegluro yng nghyd-destun addysg drwytho. Er enghraifft, trosglwyddiad iaith: “Il est trois ans” (Mae e’n dair blwydd oed), y ffurf idiomatig gywir yn Ffrangeg yw “Il a trois ans” (yn llythrennol “Mae *ganddo* dair blynedd”). Caiff gorgyffredinoli ei egluro gan “une maison nouvelle” (tŷ newydd). Caiff y rheol gyffredinol bod ansoddeiriau’n dilyn yr enw yn y Ffrangeg ei defnyddio mewn eithriadau hefyd.

Mae Jones (1997) hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o drosglwyddo, gorgyffredinoli a symleiddio iaith a ganfu yn ei hymchwiliad ei hun mewn cyd-destun trwytho iaith Gymraeg, gan grybwyll bod pethau fel cystrawen anghywir, sydd wedi deillio o’r Saesneg, yn cael ei mabwysiadu ar gyfer yr achos genidol yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae’r iaith Gymraeg yn dangos tystiolaeth glir o rinweddau plethiad iaith a nodwyd uchod. Er enghraifft, ymddengys bod strategaethau dysgu a chyfathrebu iaith yn ymddangos yn tueddu i fabwysiadu ffurfiau cwmpasog yn hytrach na ffurfiau byr berfau yn y dyfodol yn ogystal â’r amodol a’r gorffennol. Er

eu bod yn adlewyrchu swm cyfyngedig o ddefnydd tafodieithol, mae hyn yn galluogi dysgwyr i osgoi'r angen i ddefnyddio gwahanol ddiweddebau berfol.

Mae Baetens-Beardsmore (1991) yn ystyried bod theori Selinker (1972) o blethiad iaith yn fanteisiol o ran cwmpasu'r siaradwr a'r dysgwr dwyieithog rhugl yn yr un fframwaith, ac mae'n esbonio ystod a graddau datblygiad dwyieithog unigol.

“The attractive element in Selinker’s argument is that it draws a link between the highly accomplished early bilingual and the non-fluent bilingual in terms of common reference...The interlanguage theory also explains the great range and variety of abilities encountered in different degrees of bilingualism, since the component factors which determine them will vary from case to case.”

(Baetens-Beardsmore,1991:129)

Mae'r fath safbwynt yn awgrymu bod plethiad iaith yn broses sy'n gyson newid a datblygu mewn caffaeliad iaith ar hyd continwrm o welliant graddol. Fodd bynnag, cysyniad ieithyddol arall sy'n cynnig safbwynt gwahanol ar blethiad iaith yw *plethiad iaith wedi'i ffosileiddio* neu (FI).

Plethiad iaith wedi'i ffosileiddio

Yn Narlleniad 3, mae Dodson (1995:109) yn disgrifio plethiad iaith wedi'i ffosileiddio (FI) fel pwynt yng nghynnydd L2 pan ddaw “errors, even basic grammatical errors, made by L2 learners during communicative L2 acquisition become ‘frozen’ or fossilized and are almost impossible to eradicate once established.” Yn unol â'n trafodaeth gynharach o blethiad iaith, mae'n parhau:

“FI can be characterized as a simplified form of the target language where pupils’ use of vocabulary is limited, redundant language features are ignored and many grammatical devices such as gender, number, tense, mutations , articles etc are avoided, eliminated or used wrongly, whilst at the same time a great deal of transfer from pupils’ mother-tongue causes interference.”

(Dodson,1995:109).

Mae'r camddefnydd parhaus o iaith neu ddefnyddio “amrywiad” ar iaith ymhlith nifer fawr o siaradwyr, felly'n gallu arwain at ffosileiddio, ac yn y pen draw, i fath newydd o iaith sy'n mynd yn anodd ei dileu ac a all gynnwys ymyrraeth eiriadurol, gramadegol a chystrawennol. Nid mater o ruglder yw hyn, ond yn hytrach bod yn siaradwyr rhugl o iaith anghywir.

Er gwaethaf tuedd i gysylltu plethiad iaith gydag addysg drwytho h.y. addysg y blynyddoedd cynnar, ac fel cam dros dro mewn datblygiad iaith, serch hynny, ymddengys bod amgylchiadau y mae “datblygiad” pellach yn arafu ynddynt, sy'n arwain at ffosileiddio rhinweddau ieithyddol anghywir. Mae'r fath amgylchiadau'n cynnwys diffyg cyswllt cymdeithasol rhwng siaradwyr L2 a'r boblogaeth frodorol sy'n siarad yr iaith darged. Er enghraifft, mae'n ffaith adnabyddus fod yr adfywiad presennol yn nifer y siaradwyr Cymraeg eu hiaith yn bennaf yn sgil y niferoedd sylweddol a chynyddol o blant o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn rhannau o Gymru nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

Fodd bynnag, fel y mae Dodson (1995:109 -110) yn datgan:

“FI is by now a well-known phenomenon, although in countries where L2 (second-language) immersion education is found, the authorities have in the past tended to underplay its effects, while teachers themselves are often only too glad that their pupils are saying anything at all.”

Fel y mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu, ffactor arall sydd i weld yn gyfrifol am blethiad iaith wedi'i ffosileiddio yw addysgu methodoleg a'r duedd i annog “rhuglder” ar draul cywirdeb:

“...when pupils begin to speak in their second language in the classroom, the teacher is so often glad that the target language is being used, that any faulty language produced will not be corrected. This, of course is a signal for the pupils concerned that they have made themselves understood and, as no correction was made, that the utterance spoken was linguistically correct.” (Dodson, 1995:121)

“The development of FI in L2 immersion education is ultimately due to the fact that the mother tongue of the pupils is avoided in the teaching of the second language....based on the pedagogue principle that the learning of a second language should imitate as closely as possible the learning of one's first.” (Dodson, 1995:117)

Fodd bynnag, o ran y broses *caffael iaith*, rydym yn cael ein hatgoffa o sylw Hammerly (1989:29), a ddyfynnwyd yn *rhannol* yn flaenorol:

“Listeners to a second language interpret what they hear on the basis of the language or languages they know, eliminating what seems redundant, such as certain endings, little unstressed words like articles prepositions and so forth, even though they are important in the second language. *Of course, the listener as listener cannot be corrected by anyone, so, without saying a word, faulty second language structures are internalised.*” (ychwanegwyd pwyslais)

Cedwir y drafodaeth o fethodoleg addysg ddwyieithog a chaffael ail iaith ar gyfer modiwlau diweddarach, sef ECDA-7004C ac ECDA-7005C. Fodd bynnag, mae'n berthnasol i'r drafodaeth bresennol nodi bod Darlleniad 3 Dodson (1995:117) yn gwahaniaethu rhwng *gweithgareddau sy'n cyfeirio at gyfrwng* a *gweithgareddau sy'n cyfeirio at negeseuon* yn y broses caffael iaith, gan honni bod strategaethau sy'n cyfeirio at negeseuon yn yr ystafell ddosbarth weithiau'n cymryd blaenoriaeth dros strategaethau sy'n cyfeirio at gyfrwng; o'i ddatgan yn syml, mae cyfleu'r hyn a *olygwch* yn bwysicach na'r *ffordd a ddywedwch*.

Am y rheswm hwn, mae ymchwilwyr rhaglenni trwytho i'r Ffrangeg yn tynnu sylw at ddiffyg tyfiant datblygiad ieithyddol ymhlith dysgwyr ar ôl iddynt gyrraedd y cam o allu gwneud eu hunain yn eglur yn y L2. Fel y mae Baetens Beardsmore (1986) yn datgan:

“Their communicative needs in the classroom are orientated towards the conveyance of cognitive meaning...there is no strong social incentive to develop further towards native-speaker forms.”

Fel yr awgrymwyd yn flaenorol, oherwydd ffosileiddio, gall plethiad iaith fod yn amlwg mewn camau hwyrach nag addysg drwytho. Gwnaed astudiaethau gan Pellerin a Hammerly (1984) o ddisgyblion 18 oed yn Vancouver a gafodd addysg drwytho yn y Ffrangeg o 5 oed ymlaen. Mewn cyfweiliadau heb strwythur seiliedig ar destunau cyfarwydd iawn, canfuwyd ganddynt gyfartaledd o 53.8% o frawddegau anghywir (gan amrywio'n unigol o 40.3% i 72.4%) gan gyfrif gramadeg a geirfa'n unig. Mae Hammerly (1989:18) yn gwneud y sylw canlynol:

“although the students managed to communicate nearly all of their ideas, they did so in Frenglish, not French. Frenglish is not a language nor a dialect but an embarrassment. A 6 year-old may sound cute coping with communication needs in very faulty French, but would you say the same of a 30 or 40 year old?”

Gan gyfeirio'n ôl at y sgiliau cynhyrchiol a grybwyllwyd yn gynharach, ceir wrth gwrs, gymhlethdodau pellach pan astudiwn blethiad iaith o ran llythrennedd mewn cyferbyniad â llafaredd. Mae Dodson (1995:111) yn gwneud y sylw canlynol:

“Poor receptive and productive skills at the aural/oral level will be compounded at the written level, since inaccuracies which might pass unnoticed in speech become glaring, and worse still, virtually ineradicable when they appear in writing. Less easy to detect, and hence to correct, is any inaccuracy in the pupils' reading comprehension; yet this will affect their ability to study across the whole curriculum.”

Dwy “ysgol” meddwl

Ymddengys ei bod hi'n amlwg o drafodaeth flaenorol fod swm penodol o ddadlau ac anghytundeb yn bodoli o amgylch ffenomenon plethiad iaith. Er enghraifft, mae B. Morris-Jones (1988), Thomas (1991) yn dadlau nad “camgymeriadau” yw'r rhain gan eu bod nhw'n seiliedig ar “reolau” systematig yn eu defnydd. Ceir anghytundeb hefyd mewn perthynas â swm ymyrraeth yr iaith gyntaf ar gaffael ail iaith. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae Corder (1967) yn dadlau bod “camgymeriadau” sy'n nodweddiadol o gaffael ail iaith yn adlewyrchu'r un broses â chaffael iaith gyntaf a dylid eu trin yn yr un ffordd. Cefnogir y farn hon gan Dulay a Burt (1973) sy'n dadlau bod y rhan fwyaf o anghywirdebau sy'n gysylltiedig â phlethiad iaith L2 yn ddatblygiadol yn hytrach na wedi deillio o L1 h.y. yn debyg i anghywirdebau mewn lleferydd plant yng nghaffaeliad arferol L1. Cefnogir y farn hon ymhellach gan Dulay, Burt a Krashen (1982):

“Studies show, for example, that only 5% of the grammatical errors children make and at most 20% of the ones adults make can be traced to crossover from the first language.

Learners' first languages are no longer believed to interfere with their attempts to acquire second language grammar, and language teachers no longer need to create special grammar lessons for students from each language background."

Fodd bynnag, fel y gwelsom yn gynharach, mae Hammerly (1989:29) yn cyflwyno barn i'r gwrthwyneb wrth haeru bod "listeners to a second language interpret what they hear *on the basis of the language or languages they know.*"

Gallwn weld o drafodaeth flaenorol, er enghraifft, fod barn Nemser (1971) o gaffael ail iaith fel cyfres o "systemau bras" sy'n newid yn y broses o symud tuag at yr iaith darged yn amrywio â'r syniad o ffosileiddio (h.y. *diffyg tyfiant* yn hytrach na newid ar hyd continwmm ieithyddol).

Fel y datganwyd yn flaenorol, mae materion pellach yn ymwneud â phlethiad iaith a phlethiad iaith wedi'i ffosileiddio sy'n amharu ar feysydd caffael iaith yn ogystal ag addysgu methodoleg sef byrddwn modiwlau diweddarach yn y rhaglen hon. Felly, eir i'r afael â'r materion hynny maes o law.

Cydadwaith iaith

Ydy hi'n ddilys cymharu lefel hyfedredd rhywun dwyieithog mewn iaith benodol gyda lefel siaradwr uniaith brodorol? Fel yr awgrymwyd uchod, mae cydadwaith newidynnau ieithyddol, cymdeithasol a gwleidyddol di-rif sy'n rhan o gyfathrebu a pharthau cymdeithasol, yn cael effaith anochel ar arferion ieithyddol unigolion, fel y ffordd y mae un iaith yn effeithiol ar y llall, sef *ymyrraeth* ac *eiledded*.

Gan gyfeirio at yr hyn a elwir yn *ddadansoddiad cyferbyniol*, hynny yw, cymharu ieithoedd i ddadansoddi'r gwahaniaethu rhyngddynt, mae Baetens Beardsmore (1991:86) yn datgan, nad oes angen cydberthyniad cyson rhwng *gradd* y gwahaniaeth rhwng dwy *system* ieithyddol ac unrhyw ymyrraeth neu wyriad o normau uniaith mewn lleferydd unigolyn dwyieithog. Fodd bynnag, mae Hoffman (1991:94) yn cyfeirio at briodweddau a all nodweddu lleferydd yr unigolion dwyieithog:

"...when listening to bilinguals talking to each other, we can notice certain features which are absent from monolingual speech, such as a 'foreign accent', the incorporation (wholesale or in adapted form) of words or expressions from the other language, and sudden switches from one code to another, the latter perhaps occurring more than once within the same utterance."

Mae'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng iaith y siaradwyr uniaith a'r rhan fwyaf o siaradwyr dwyieithog yn cynnwys:

- Ymyrraeth
- Cyfnewid codau
- Cymysgu codau
- Benthycu

Efallai y dylid cynghori'r myfyriwr o'r cychwyn bod rhywfaint o drafodaeth academiaidd, heb sôn am anghytundeb, o ran yr hyn sy'n cyfansoddi rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir yn y maes astudiaeth ieithyddol hwn ac adlewyrchir hyn yn glir yn nhrafodaeth Baetens Beardsmore (1991).

Mae Baker (2008) yn datgan nad yw mor syml â hynny i wahaniaethu rhwng cyfnewid codau, cymysgu codau a benthyca iaith gan eu bod yn ffurfio continwwm ac, yn ôl Eastman (1992:1), "efforts to distinguish code-switching, code-mixing and borrowing are doomed."

Fodd bynnag, er gwaethaf unrhyw anghytundeb academiaidd, mae angen parhau i ymchwilio i ffenomena ieithyddol y gellir gwahaniaethu lleferydd pobl ddwyieithog o leferydd pobl uniaith. O ran cyflwyno'r myfyriwr i derminoleg ychwanegol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn, dylem grybwyll fod *ffynhonnell* unrhyw fenthyca sy'n ymddangos yn iaith yr unigolyn dwyieithog yn cael ei gyfeirio ato fel y *ffynhonnell iaith neu'r iaith rodd* a bod yr iaith lle caiff y benthyca ei ymgorffori'n cael ei adnabod fel yr *iaith dderbyngar*.

Ymyrraeth

Mae Baetens Beardsmore (1991:70) yn datgan:

"It can often be seen when examining interference that the greater the points of similarity between two discrete language systems the greater the likelihood of interference."

Mae Mackey'n (1968:569) rhoi diffiniad syml inni:

"Interference is the use of features belonging to one language while speaking or writing another."

Yn ôl Romaine (1995:51), "what has been called 'interference' is ultimately a product of the bilingual individual's use of more than one language in everyday interaction."

Mae Weinreich (1953:1) yn diffinio ymyrraeth fel:

"...those instances of deviation from the norms of either language which occur in the speech of bilinguals as a result of their familiarity with more than one language i.e. as a result of language contact."

Gellir dadlau bod hyn yn debyg i ddiffiniad Mackey (1968), ond mae Jones (1997) yn dehongli'n ddadleuol bod gan y defnydd o'r gair "gwyriad" arwyddocâd negyddol. Mae'r term "ymyrraeth" wedi'i amgylfred fel ffenomenon ieithyddol negyddol yn hanesyddol ac yn parhau felly, gan awgrymu bod problem gyda lleferydd unigolyn dwyieithog (Baker, 2006). Er enghraifft, yn nisgrifiad Oestreicher (1974:9) o ddwyieithrwydd fel 'complete mastery of two different languages *without interference*' (gan ychwanegu teip italig), mae'r term yn awgrymu diffyg.

Mae Grosjean (1982: 299) yn cyfeirio at ymyrraeth fel “the *involuntary* influence of one language on the other”, sydd unwaith eto’n awgrymu diffiniad mwy negyddol nag un Weinreich (1953), gan awgrymu’n “anwirfoddol (involuntary)” nad oedd yn fwriad i hynny ddigwydd. O gymharu “cyfnewid codau” (gweler isod) ac ymyrraeth, mae Baetens Beardsmore (1991:75) yn awgrymu natur *anwirfoddol* yr un olaf gan bwysleisio bod elfen o ystyriaeth ynghlwm â’r un cyn hynny ac yn cynnig enghreifftiau o gyfnewid codau gan “operating as a fairly conscious device.”

“...it would seem that interference is determined by internal linguistic factors, whereas code-switching is determined by extra-linguistic factors. Bilingual speakers with more than one language at their disposal may *choose* to use the whole repertoire of linguistic elements available, where the monoglot might interpret the inclusion of elements extraneous to one of the languages as manifestations of interference.”

Oherwydd cydnabyddir bod ymyrraeth yn norm pan fydd pobl ddwyieithog yn rhyngweithio gyda’i gilydd, a ddylem dderbyn diffiniadau mwy niwtral? Mae Sharwood-Smith a Kellerman (1986:1) yn awgrymu y dylid defnyddio’r term mwy niwtral ‘dylanwad trawsieithyddol’ pan fydd un iaith yn dylanwadu ar y llall, lle mae Edwards yn datgan: “Some writers have...opted for the more neutral term *transference* which implies, among other things, a greater element of volition.”

Fodd bynnag, wrth wahaniaethau rhwng ymddygiad ieithyddol yr unigolyn dwyieithog a’r unieithydd, mae Baetens Beardsmore (1991:44-46) yn pwysleisio pwysigrwydd *hyfedredd cyfathrebu* a’r angen i ystyried “not only the knowledge possessed by the user of the formal code of a particular language or languages but also the social implications of choice within and across the languages involved.” Felly, lle ystyriwyd ymyrraeth yn wreiddiol yn yr ystyr gulaf, fel yr adlewyrchir yn niffiniad Mackey (1968) er enghraifft, mae Baetens Beardsmore (1991:45) yn dadlau:

“...the notion of communicative competence...has widened the scope of enquiry beyond the purely formal linguistic elements to include other features of linguistic behaviour which can possibly distinguish a bilingual from a monoglot. Thus it is doubtful whether every departure from the monoglot norm by the introduction of elements extraneous to given language should be seen as interference.”

Mae ehangu’r syniad o ymyrraeth i gynnwys defnydd cymdeithasol iaith ac agweddau ar wahân i’r rhai sy’n *ieithyddol* bur hefyd yn galluogi ymchwiliad dilys o’r hyn y mae Baetens Beardsmore (1996:46) yn ei alw’n *ymyrraeth negyddol*, hynny yw *hepgor* elfennau yn lleferydd yr unigolion dwyieithog ond a *fyddai’n* cael eu cynnwys hefyd yn lleferydd y siaradwr uniaith frodorol. Cynigir osgoi’r *passé simple* yn y Ffrangeg fel enghraifft, y gallwn ychwanegu osgoi ffurfiau byr y berfau yn amser y gorffennol yn y Gymraeg er mwyn ffafrio dewisiadau cwmпасog.

Agweddau ar Ymyrraeth

Er gwaetha'r dadleuon yn *erbyn* trin pob gwyrriad o normau uniaith fel ymyrraeth yn lleferydd yr unigolyn dwyieithog trwy roi ystyriaeth ddyledus i agweddau mwy strategol ar hyfedredd cyfathrebu'r unigolyn dwyieithog, serch hynny, mae'n bwysig hefyd trafod y nodweddion *ieithyddol* hynny a nodwyd yn hanesyddol gydag ymyrraeth. Daw ymyrraeth o un iaith i'r llall mewn gwahanol ffurfiau:

- Ffonolegol: acen "heb fod yn frodorol"
- Geiriadurol: e.e. enwau, ansoddeiriau
- Gramadegol: e.e. nodweddion cystrawennol
- Rhyddieithol: gwahaniaethu mewn pwyslais a thonyddiaeth rhwng ieithoedd

Ymyrraeth Ffonolegol

Mae Weinreich (1953:24) yn datgan bod ymyrraeth ar ei amlycaf o ran ffonoleg:

"...it requires a relatively high degree of cultural sophistication in both languages for a speaker to afford the structural luxury of maintaining separate suphonic habits in each."

Pan fydd rhywun yn siarad iaith gydag acen dramor, ceir ymyrraeth ar lefel yr ynganu. Er bod ymyrraeth ffonolegol yn digwydd ar amryw lefelau, mae Romaine (1995) yn datgan y credir yn aml mai dyma'r un fwyaf treiddiol. Fodd bynnag, fel y mae Baetens Beardsmore (1991:71) yn nodi, efallai mai ffonoleg yw "the most difficult area of all for the avoidance of interference...though often the child or early bilingual has no problems here."

Gan ymhelaethu ar y pwynt olaf hwn, mae Baetens Beardsmore yn cyfeirio at "standard theory on language acquisition as developed by Lenneberg (1967) which posits a critical age of approximately 11 + for the development of language ability, be it in monoglots or bilinguals." Cyfeirir at hyn gan academyddion eraill (Asher a Garcia, 1982) fel y cyfnod *sensitif* i gaffael system ffonolegol rhydd o ymyrraeth mewn pobl ddwyieithog ifanc. Mae tystiolaeth o arbrofion yn dangos bod plant sy'n cyflawni dwyieithrwydd yn gynnar (hynny yw, cyn oddeutu 11 oed) yn datblygu systemau ffonolegol tebyg i frodorol yn y ddwy iaith, lle mae pobl ddwyieithog hwyr yn methu datblygu systemau ar wahân ar ôl eu llencyndod er gwaetha'u defnydd parhaus o'r ail iaith. Achosir yr ymyrraeth sy'n deillio gan y lefel lai o "blastigedd" yn yr ardal o'r ymennydd sy'n prosesu agweddau ffonolegol ar gaffael iaith, gan achosi seiniau L2 i ymdoddi ag L1. Mae Baetens Beardsmore (1991:71-73) yn cyfeirio at bedwar math o ymyrraeth ffonolegol ar sail gwaith Weinreich:

- gwahaniaethu annigonol
- gorwahaniaethu
- ail-ddehongli
- amnewid sain

ac mae'n darparu adroddiad o bob un y gofynnwyd i'r myfyriwr ymchwilio ymhellach iddynt. Fodd bynnag, gan nad yw'r modiwl hwn yn gwrs ar ieithyddiaeth bur, bydd yr uchod yn ddigonol wrth egluro un agwedd a all wahaniaethu lleferydd rhai pobl ddwyieithog o iaith siaradwyr uniaith.

Gellir dadlau bod ymyrraeth ffonolegol yn codi materion gwleidyddol a chymdeithasol-ddiwylliannol ehangach yn ogystal â'r rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag agweddau ieithyddiaeth bur. O'i roi'n syml, gyda pha norm uniaith y mesurir ymyrraeth ffonolegol? Pa feini prawf a ddefnyddir i wneud cymhariaeth? Gan gofio bod y Saesneg yn iaith fwyfwy fyd-eang, ydy acen Americanaidd neu Awstralaidd yn cyfansoddi ymyrraeth ffonolegol, neu o ran hynny, y rhan fwyaf o acenion a glywir ym Mhrydain?

Fel y mae Chin a Wigglesworth (2007:13) yn nodi yn Narlleniad 1:

“With many languages, the issue of what constitutes native-speakerness has become more complex with increasing globalisation. Many researchers...discuss the difficulties of identifying who native-speakers are with the creation of local identities and increasing diversity.”

Ymyrraeth eiriadurol

Mewn perthynas â throsglwyddiad geiriadurol, mae Haugen (1956) yn datgan mai *enwau* yw'r ffurfiau ymyrraeth mwyaf tebygol mewn iaith arall a geiriau gramadegol, swyddogaethol yw'r lleiaf.

Mae pobl ddwyieithog ac unieithog ill dau'n *ymwybodol* o arfer cyffredin y math hwn o newid ieithyddol, yn enwedig os ydyn nhw'n byw mewn gwlad ddwyieithog neu lle mae ieithoedd yn bodoli'n agos at ei gilydd. Gallai'r *ymwybyddiaeth* hon fod yn arbennig o wir am bobl unieithog, oherwydd gan eu bod ond yn gallu siarad un iaith, ni allant ei hymarfer mewn unrhyw drefn reolaidd ond maent yn ymwybodol iawn ohono yn lleferydd y sawl sy'n medru ac maen nhw'n tueddu i'w thrin fel diffyg ieithyddol.

Mae Edwards (2006) yn rhoi enghraifft o siaradwr Ffrangeg ym Mrwsel yn defnyddio'r gair Iseldireg “vogelpik” yn hytrach na “fléchettes” mewn gêm o ddartiau.

Mae enwau ac ansoddeiriau'n fwy tebygol o ymyrryd ar iaith arall yn *eu ffurf wreiddiol* na berfau ac adferfau e.e. teledu, cyfrifiadur, eirin gwlanog, yn araf, yn dawel. Er enghraifft, pan fydd berfau Saesneg weithiau'n cael eu mabwysiadu gan siaradwyr Cymraeg, caiff y ferf ei haddasu'n forffolegol trwy ychwanegu “-o” at y berfenw e.e. writeo, lle mae'r ffurf gywir yw “ysgrifennu”.

Yn aml, gwelir ymyrraeth eiriadurol fwyaf fel arwydd o wendid ieithyddol mewn hyfedredd dwyieithog ac fel effeithiau andwyol dwyieithrwydd. Fodd bynnag, fel y mae Baetens Beardsmore (1991:94) yn crybwyll, nid yw'r fath ymyrraeth o reidrwydd yn adlewyrchu unrhyw *ddominyddiaeth* o un iaith dros y llall oherwydd “it may be accounted for by cultural and technological developments which cannot be handled with ease in the importing language.”

Ymyrraeth Ramadegol / Cystrawennol

Weithiau, gall ymyrraeth ramadegol gael ei gweld yn nylanwad *cystrawennol* un iaith ar y llall. Mae Baetens Beardsmore (1991:69) yn datgan “the most obvious case of structural interference is that manifested by word order divergences from monoglot norms, e.g. in Welsh, an emphasis is usually placed at the beginning of a sentence, Therefore, whereas in spoken English one would normally say “He

lives in London”, Welsh-speakers might sometimes say “In London he lives” based on the Welsh, “Yn Llundain mae e’n byw.”).

Enghraifft arall o ymyrraeth ramadegol yw mabwysiadu’r rhagddodiad anghywir o iaith arall i gyd-fynd â berfau e.e. “siarad i rywun” yn lle “siarad â rhywun” oherwydd dylanwad y rhagddodiad Saesneg “to” (i gyfeiriad e.e. to London) = “i” yn y Gymraeg.

Mae Edwards (2006:18) yn cynnig yr enghraifft “Tu prends ton plus haut chiffre” (“Rydych chi’n cymryd eich ffigur uchaf”) sy’n adlewyrchu’r arfer cywir yn yr Iseldireg o roi’r ansoddair cyn yr enw ond byddai hyn yn anghywir yn yr achos hwn yn y Ffrangeg. Mae Baetens Beardsmore (1991:70) yn cyfeirio at y duedd mewn pobl ddwyieithog yn y Saesneg a’r Ffrangeg “to neglect the gender agreement of adjectives or past participles in French because of their absence in English.”

Arfer mwyfwy cyffredin yn y Gymraeg yw mynegi’r achos genidol yn yr un ffordd â’r Saesneg. Lle gellir mynegi hyn yn aml mewn dwy ffordd yn y Saesneg (e.e. “the boy’s mother” neu “the mother of the boy”), dim ond un ffordd sydd yn y Gymraeg (mam y bachgen). Fodd bynnag, pan fydd ond yr ail ddull yn bodoli yn y Saesneg, mae’n tueddu i effeithio ar y mynegiant yn y Gymraeg e.e. daw “the first month of the year” yn “y mis cyntaf o’r flwyddyn” lle caiff y fannod bendant ei datgan yn anghywir ddwywaith (fel yn y Saesneg) yn lle unwaith.

Ymyrraeth fydryddol

Mae Baetens Beardsmore (1991:73) yn disgrifio’r agwedd hon o ymyrraeth fel “the least well-documented in the literature” gan nodi “the subtle differences in stress and intonation patterns between two languages” i fod “amongst the earliest patterns established in language acquisition and consequently probably most deeply anchored...”

Gellir dadlau bod y ffaith nad yw ymyrraeth o reidrwydd yn adlewyrchu unrhyw “wendid” ieithyddol yn cael ei gadarnhau gan y ffordd y mae Baetens-Beardsmore (1991) yn gwahaniaethu rhwng ymyrraeth a chyfnewid codau h.y. efallai bod ymyrraeth yn sgil ffactorau ieithyddol mewnol lle mae cyfnewid codau yn sgil ffactorau heb fod yn ieithyddol (gweler isod). Mae Hoffman (1991:96) yn esbonio’r gwahaniaeth trwy ddatgan bod ymyrraeth yn bresennol yn lleferydd pobl ddwyieithog wrth siarad â phobl unieithog hefyd, lle mae cyfnewid codau’n amlwg pan fydd pobl ddwyieithog yn siarad â phobl ddwyieithog eraill.

Mewn perthynas â’r cysylltiad rhwng ymyrraeth a *dominyddiaeth* iaith (gweler isod), mae Baetens Beardsmore (1991) yn codi’r mater o ran sut gall *pellter iaith* h.y. y graddau y mae dwy iaith yn gwahaniaethu wrth ei gilydd effeithio ar y swm a’r math o ymyrraeth.

Integreiddio

Mae cymhlethdod pellach yn codi pan fyddwn yn ystyried yr hyn a elwir yn *integreiddio* h.y. pan fydd defnydd cyson o air a fenthycir yn cael ei integreiddio’n derfynol mewn iaith ac yn tybio defnydd cyffredinol.

Mae Baetens Beardsmore (1991:50) yn tynnu sylw at y mater hwn:

“A further problem with the notion of interference is pinning down the stage when an element extraneous to a particular code by monoglot norms but constantly present in bilingual speech has stopped being a question of interference.”

Mae Baetens Beardsmore yn diffinio'r term *integreiddio* fel “the *regular use* of material from one language in another in the form of an established loan, particularly when no alternative ‘non-foreign’ is known or used” ac mae'n cynnig y gair Ffrangeg “blasé”, a ddefnyddir yn rheolaidd yn y Saesneg fel enghraifft. Gellir dadlau mai enghraifft arall a ddefnyddir yn y Saesneg yw'r gair Cymraeg “eisteddfod” sef gŵyl gerddorol a diwylliannol. Fodd bynnag, mae hon yn enghraifft lle daw categorieiddio'n anodd oherwydd fe'i defnyddir dim ond i gyfeirio at yr ŵyl a gynhelir yng Nghymru, ac er y caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd yng Nghymru ymhlith siaradwyr Saesneg (gan nad oes term arall yn bodoli), efallai nad yw mor rheolaidd y tu allan i Gymru.

Gellir categorieiddio geiriau hefyd i fod yn enghreifftiau o integreiddio yn hytrach nag ymyrraeth pan fyddant wedi newid yn ffonolegol neu'n forffolegol. Mae Jones (1997) yn cyfeirio at Morris-Jones (1988) sy'n dyfynnu *pwdu* yn y Gymraeg (sydd wedi deillio o'r Saesneg “to pout”) ac mae Baetens Beardsmore (1991:50) yn cyfeirio at y defnydd o'r gair Ffrangeg “liqueur” [likœr] a yngenir [lik'juə] yn y Saesneg. Felly, pan na fydd y fath newid yn digwydd, mae'n parhau'n ymyrraeth. Fodd bynnag, mae Baetens Beardsmore (1991) yn dangos sut mae'r disgrifiad hwn yn parhau'n broblem (tt. 50-51) ac yn nes ymlaen (tt.52-56) mae'n egluro pwysigrwydd cyd-destunoli unrhyw ymchwiliad o ffenomena *ieithyddol* bur (yn y “dicotomi ymyrraeth-integreiddio” fel y'i gelwir) mewn fframwaith cymdeithaseg iaith ehangach, yn enwedig yn achos yr hyn y cyfeirir ato fel cymunedau “dwyieithog preswyl”.

Mae Mackey (1976) yn ceisio egluro'r gwahaniaeth rhwng ymyrraeth a'r broses integreiddio trwy osod pob un ar bennau cyferbyniol continwum ac ar raddfa o 0-100% yn unol â lefel *defnydd* yr iaith dderbyngar, ond gellir dadlau, ei bod yn llwyddo tipyn yn fwy i ddangos pa mor anodd yw hi i wahanu'r ddwy:

0%	100%
ymyrraeth	Integreiddio

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, yn aml mae ymyrraeth ramadegol yn ymddangos yn y defnydd o'r gystrawen anghywir neu'r rhagddodiad anghywir. Fodd bynnag, lle mae hyn yn aml i weld yn arwydd o wendid mewn hyfedredd dwyieithog, yn aml gall rhuglder yn y ddwy iaith achosi ymyrraeth ramadegol i fynd yn *integratedig* heb unrhyw ymwybyddiaeth ar ran y siaradwr.

Cyfnewid codau a chymysgu codau

Yn aml, gwahaniaethir rhwng cyfnewid codau a chymysgu codau trwy ddweud bod cyfnewid codau yn disgrifio'r newid o un iaith i'r llall ar lefel brawddeg, lle mae cymysgu codau fel rheol yn dynodi cyfnewid ar lefel gair mewn brawddeg. Mae

Gumperz (1982:59) yn diffinio cyfnewid codau fel “the juxtaposition within the same speech exchange of passages of speech belonging to two different grammatical systems or sub-systems.”

Mae Baker (2011:107) yn darparu un enghraifft i wahaniaethu rhwng y ddau.

Mae “Leo un magazine” (Rwy’n darllen cylchgrawn) yn cymysgu codau. Mae “Come to the table. Bwyd yn barod.” yn cyfnewid codau.

Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae’n aml yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt, mae Eastman (1992:1) o’r farn fod “Efforts to distinguish between code-switching, code-mixing and borrowing are doomed.”

Yn aml, ystyrir bod cyfnewid codau’n dangos diffyg hyfedredd yn y ddwy iaith. Mae Edwards (2006:19) yn cyfeirio at dermau gwaradwyddus megis Tex-Mex, Franglais a Japlish lle gallwn ychwanegu Wenglish, ond mae Romaine (1995:120) yn credu bod hyn yn “natural and frequent part of bilingual behaviour”. Mae Meisel (2004) yn ystyried bod yr arfer o gyfnewid codau ymhlith pobl ddwyieithog yn adlewyrchu lefel uwch o hyfedredd dwyieithog. Yn yr un modd, yn hytrach na bod yn arwydd o ddiffyg ieithyddol, nodwyd hefyd fod cyfnewid codau’n un o fanteision gwybyddol bod yn ddwyieithog h.y. bod cyfnewid codau’n arwydd o hyblygrwydd meddyliol. Fodd bynnag, mae Neufeld (1974) yn feirniadol o’r safbwynt hwn ac yn nodi bod siaradwyr uniaith hefyd yn newid cyweiriau ieithyddol i ddarparu ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau.

Mae Baetens Beardsmore (1991:49) yn credu bod “code-switching is not arbitrary but rule governed and depends on factors such as topic, code being used, situation and participants”, sef agwedd ar gyfnewid codau a adwaenir fel “sifftio sefyllfaol” sydd wedi hawlio sylw rhai ysgolheigion. Mae Baker (2011) hefyd yn haeru y bydd nifer o ffactorau a newidynnau’n penderfynu ar swm cyfnewid codau mewn sgwrs, fel statws y gwrandawr (neu ganfyddiad y siaradwr o’r gwrandawr), beth yw’r pwnc, ac ym mha gyd-destun y cynhelir y sgwrs. At hynny, mae Baker (2011:108) yn ystyried amryw ddibenion cyfnewid codau gan gynnwys:

- pwysleisio pwynt
- newid gair neu ymadrodd hwyrach nad yw person yn ei wybod mewn iaith
- er mwyn mynegi’n rhwydd ac yn effeithlon
- er mwyn atgyfnerthu cais
- ar gyfer ailadrodd er mwyn eglurhau
- i gael ei dderbyn gan grŵp neu i fynegi hunaniaeth grŵp
- dyfynnu rhywun
- ebychu mewn sgwrs
- eithrio rhywun o sgwrs
- croesi ffiniau cymdeithasol ac ethnig
- lleddfu tyndra mewn sgwrs

Mae Weinreich (dyfynnwyd yn Romaine, 1989) yn haeru bod cyfnewid codau’n digwydd o dan ddylanwad lleoliad, pwnc y sgwrs a’r cyd-destun neu’r parthau, lle mae Gumperz (1982) yn credu bod y siaradwr yn fwy cyfrifol am gyfnewid codau na’r parthau eu hunain. Yn ôl Edwards (1994:82):

“...if context determines linguistic choice then, equally,

language (or dialect or accent or style) choice can influence the psychological situation."

Fel y mae Hoffman (1991), yn nodi, gall cyfnewid codau adlewyrchu deinamig rhyngbersonol grymus ar wahân i'r hyn sy'n bur ieithyddol (gweler y Theori Addasu Cyfathrebu isod hefyd):

"Code-switching, then, constitutes a habitual and often necessary part of social interaction among bilinguals. Whereas monolinguals have only one linguistic code at their disposal, bilinguals can rely on a four-way choice (the two languages and various forms of mixed and switched codes, since they are able to code-switch in both their languages)." (Hoffman, 1991:116)

Mae Baetens Beardsmore (1991:47) yn ei gwneud hi'n glir nad yw'n ystyried bod *cyfnewid* codau'n adlewyrchiad o ymyrraeth:

"A further problem connected with the delimitation of the concept of interference, even, at the formal level, is that of deciding when the use of elements of one language within the context of another ceases to be interference but represents a switch in language, or *code-switching*."

Fel yr awgrymwyd, gall gwahaniaethu rhwng ymyrraeth a chyfnewid codau fod yn broblem. Esboniad Haugen (1956:40) yw bod cyfnewid codau (yn wahanol i ymyrraeth) yn digwydd pan fydd rhan fawr o un iaith yn cael ei mabwysiadu yng nghwrs defnyddio'r llall. Fodd bynnag, mae Baetens-Beardsmore (1991:447-48) yn llwyddo i ddangos pa mor anodd y gall fod i ddefnyddio'r fath wahaniaeth.

Yn ôl Myers Scotton (1983, 1991), gall cyfnewid codau adlewyrchu tuedd i wneud newid iaith fwriadol neu bwrpasol (e.e. am resymau cymdeithasol, economaidd neu wleidyddol), lle caiff ei alw'n "ddewis iaith nodedig" yn yr achos hwnnw. Lle nad dyna yw'r achos, cyfeirir ato fel "dewis iaith heb ei nodi."

Ystyrir bod hyn yn gyfraniad defnyddiol at y ddadl o ran pwysleisio ffactor sylfaenol, sef, *penderfyniad bwriadol* ar ran yr unigolyn dwyieithog i gyfnewid ieithoedd.

Benthycia

Fel rheol, mae benthycia'n derm a gymhwysir at ddefnydd gair tramor mewn iaith arall e.e. "le weekend" yn Ffrangeg.

Mae Grosjean (1982) yn gwahaniaethu rhwng *cyfnewid codau* a *benthycia* trwy nodi bod benthycia'n golygu pan fydd gair wedi'i addasu'n forffolegol a chyfnewid codau yw pan na fydd. Felly, fel y mae Jones (1997) yn nodi, yn ôl Grosjean (1982) mai "cyfnewid codau" yn golygu cyfnewid cod yng nghanol brawddeg Ffrangeg lle byddai "code-switché" yn golygu benthycia.

Fodd bynnag, mae Appel a Muysken (1987:172), yn tynnu sylw at broblemau diffiniadau wrth geisio gwahaniaethu rhwng *cymysgu codau* a benthycia,

"The classical view is that code-mixing and borrowing can easily be kept apart : with code -mixing the non-native items are not adapted morphologically and phonologically, with borrowing they are."

Mae gennym felly'r un gwahaniaeth o ran diffiniad rhwng:

1. *Cyfnawid* codau a benthycu (Grosjean,1982) a
2. *Chymysgu* codau a benthycu (Appel a Muysken,1987).

Mae hyn o bosibl yn ein hatgoffa ni eto o'r sylw cynnar a wnaed gan Eastman (1992:1): "Efforts to distinguish between code-switching, code-mixing and borrowing are doomed".

Ydy cyfnawid codau, cymysgu codau a benthycu'n digwydd i'r ddau gyfeiriad ac i ba raddau y mae'r ffenomena ieithyddol hyn yn adlewyrchu statws ieithoedd neu ffactorau cymdeithaseg iaith eraill mewn cyd-destun dwyieithog neu ddeuglosig? Dyma gwestiynau sydd unwaith eto'n gysylltiedig â materion a drafodir yn y modiwl nesaf (ECDA-7011C: Dwyieithrwydd Cymdeithasol) ac yn dangos cyd-gysylltedd newidynnau sy'n amharu ar ymddygiad ieithyddol ar lefel yr unigolyn ac ar lefel gymdeithasol. Fodd bynnag, efallai gallwn gyffredinolli rhywfaint.

Amodau sy'n cyfrannu at addasu (neu fel arall) geiriau yn y broses o'u benthycu o ieithoedd eraill.

Gellir dweud bod yr amodau canlynol yn cyfrannu at addasiad pellach o air a fenthyciwyd:

- Amllder y defnydd
- Pa mor gyflym bydd yn mynd i mewn i'r iaith fabwysiadol ac yn disodli'r gair gwreiddiol boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl
- Pa mor gyflym y gellir ei addasu'n ffonolegol neu'n ramadegol i'r iaith fabwysiadol (Hoffman,1991)
- P'un ai y cafodd ei drosglwyddo o iaith statws uchel i iaith statws is ai peidio; dyma'r broses arferol fel rheol yn hytrach na'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, ceir eithriadau, fel geiriau sy'n ymwneud â diwylliannau penodol ac nad ydynt yn bodoli mewn diwylliannau mwyafrifol eraill.
- Geiriau sydd yn aml yn dramgwyddus (Baetens-Beardsmore, 1991).

Mesur dwyieithrwydd

Un o'r agweddau allweddol ar ymchwilio i ddwyieithrwydd yn yr unigolyn yw'r mater sut yn union y gellir mesur lefelau dwyieithrwydd. Dylai fod yn gymharol amlwg o'r drafodaeth flaenorol a'r amryw agweddau a astudiwyd fod *mesur* lefelau dwyieithrwydd yn yr unigolyn yn fater eithriadol o gymhleth. Fel y mae Baker (1993) yn datgan:

"Defining who is or is not bilingual is essentially elusive and ultimately impossible. Some categorisation and explication is often necessary and helpful to make sense of the world. Therefore, categorisations and approximations may be required. ...Yet the simplification of categorisation often hides the subtle complexity of reality. Sorting often simplifies unsympathetically. Individual differences are reduced to similarities. Yet over-complexity can be frustrating and confusing. Complications can confound those needing order and pattern. The measurement of bilinguals attempts to locate similarities, order and pattern". (Baker,1993:15,19).

Mae Baetens Beardsmore (1991) yn nodi “any attempt at measuring the phenomenon is hampered by the elasticity of what is covered” ac y dylid gwneud y fath fesuriad o fewn y cylch gorchwyl ar gyfer *math penodol o achos dwyieithog* os mesurir “aspects of specific linguistic behaviour which typify a particular bilingual situation” gydag unrhyw radd o gywirdeb.

Yn Narlleniad 4, mae Skutnabb-Kangas (1981:194) yn ystyried “attempts to describe bilingualism and bilingual individuals to be more useful than attempts at measuring...” Efallai yr amlygir y cymhlethdod ychwanegol wrth fesur hyfedredd mewn pobl ddwyieithog yn wahanol i siaradwyr unieithog trwy'r ffordd y mae Bialystok (2001) yn cyfeirio at wahanol gyfnewidiadau o fesur yr un blaenorol, sef:

- lefel *absoliwt* hyfedredd pobl ddwyieithog ym mhob iaith sy'n berthynol i hyfedredd *siaradwyr brodorol* (mewn perthynas â'r hyn, fodd bynnag, rydym yn ystyriol o'r cafeat a grybwyllwyd yn gynharach ynghylch y defnydd o'r term hwn)
- lefel *berthynol* hyfedredd ar draws y ddwy iaith neu, fel y mae Bialystok (2001) yn ei nodi, “an estimate of the command of each of the bilingual's languages with respect to the other.”

Mae darlleniadau sy'n trafod *mesur* dwyieithrwydd sy'n cyd-fynd â'r modiwl hwn yn cyflwyno'r myfyriwr i amryw agweddau ar y pwnc. Fodd bynnag, er gwaethaf mynd i'r afael â rhai o'r un materion sylfaenol a phroblemau methodolegol sy'n gysylltiedig â'r maes astudio hwn, bydd myfyrwyr yn sylweddoli bod awduron yn dewis saernïo'r drafodaeth yn wahanol. Er enghraifft, mae Chin a Wigglesworth (Darlleniad 1), ar sail eu penderfyniad i ganolbwyntio ar *ddatblygu* pobl ddwyieithog, yn rhannu'r rhain yn ddau grŵp, sef:

- Pobl ddwyieithog o ddewis (y cyfeirir atynt yn y deunydd darllen hefyd fel pobl ddwyieithog eilaidd): fel rheol, cyfeirir at fesur hyfedredd dwyieithog ar allu a defnydd yn yr *ail iaith* yn unig, a
- Phobl ddwyieithog yn sgil amgylchiadau (y cyfeirir atynt hefyd fel pobl ddwyieithog sylfaenol): mesur hyfedredd sy'n cwmpasu gallu a defnydd o'r *ddwy iaith*.

Mae Skutnabb-Kangas (1981) (Darlleniad 4) hefyd yn cyfeirio at y gwahaniaethu hwn (er ei fod yn llai penodol) ond mae'n dewis saernïo'r drafodaeth trwy gategoreiddio mesuriad yn ôl *dulliau*. Ar y llaw arall, mae Baetens Beardsmore (1991) yn categoreiddio amryw brofion mewn perthynas â dominyddiaeth iaith ac agweddau etc sy'n *cynnwys* dulliau penodol. Serch hynny, bydd y myfyriwr yn sylweddoli bod darlleniadau dethol yn ychwanegu at ei gilydd mewn sawl ffordd.

Gall y rhesymau am fesur lefelau dwyieithrwydd fod yn amrywiol, boed ar lefel yr unigolyn, y gymuned neu'n genedlaethol, fel mewn cyfrifiad er enghraifft. Fodd bynnag, gan fod y modiwl hwn yn ymwneud â *dwyieithrwydd unigol* yn hytrach na dwyieithrwydd *cymdeithasol*, byddwn yn cyfyngu'n trafodaeth i'r un blaenorol. Gall y fath resymau gynnwys, er enghraifft:

- asesu anghenion unigol er mwyn clustnodi grwpiau addysgol neu ieithyddol i fyfyrwyr
- dewis disgyblion fel unigolion neu grwpiau ar gyfer samplau ymchwil
- asesu sgiliau ieithyddol unigolion ar gyfer swyddi penodol lle mae angen ddwyieithrwydd / amlieithrwydd
- asesu cynnydd ieithyddol unigolion mewn cwrs addysgol lle bydd y fath asesiad o ddau fath fel rheol:
 - (a) ffurfiannol
 - (b) crynodol

Profion ffurfiannol

Fel rheol, caiff profion ffurfiannol eu mabwysiadu i asesu cynnydd unigolion ar sail meini prawf ieithyddol gosod sydd fel rheol yn cwmpasu, er enghraifft, pedwar sgil sylfaenol siarad, gwranddo, ysgrifennu a darllen. Am y rheswm hwn, dywedir eu bod wedi'u cyfeirio gan feini prawf, sy'n golygu y byddai un yn cael ei asesu mewn rhai sgiliau *fel unigolyn a heb gael ei gymharu gyda phobl eraill*. Un enghraifft a ddefnyddir fel rheol i egluro profion wedi'u cyfeirio gan feini prawf yw'r prawf gyrru sy'n galluogi gyrrwr i fod ar y briffordd gyhoeddus cyhyd ag y mae ef/hi yn meddu ar y sgiliau gyrru angenrheidiol fel unigolyn. Yn yr un modd â'r iaith Saesneg a phynciau ysgol eraill yng Nghwricwlwm Cenedlaethol yr ysgol, caiff disgyblion yng Nghymru eu graddio ar wahanol lefelau cyrhaeddiad yn y Gymraeg yn unol â'u perfformiad yn erbyn meini prawf penodol.

Mae cyfeirio at feini prawf yn gydran hanfodol yn y broses *asesu ffurfiannol* sy'n darparu adborth penodol i athrawon mewn perthynas â pherfformiad disgybl trwy bwyntio at rai gwendidau, ac felly'n galluogi camau adferol.

Profion crynodol

Fel rheol, defnyddir profion crynodol ar gam terfynol penodol mewn proses addysgol. Er y gall asesiadau gael eu cyfeirio yn ôl meini prawf unwaith eto o ran bod yn seiliedig ar gyrhaeddiad unigolyn o sgiliau penodol (fel yn yr enghraifft uchod), caiff ei *gyfeirio yn ôl norm* hefyd trwy gael ei gymharu â *chyrrhaeddiad pobl eraill*, ac felly galluogi ar gyfer ymgorffori sgôr yr unigolyn mewn lefel cyrhaeddiad cyffredinol a'i osod, er enghraifft mewn chwarterl penodol. Mae'r fath weithdrefn hefyd yn galluogi ar gyfer cymharu cyflawniadau ieithyddol ac academiaidd cyffredinol ysgolion unigol gyda sefydliadau addysgol eraill. Gan ddyfynnu tystiolaeth ymchwilwyr fel Thomas a Collier (1997) yn Narlleniad 1, mae Chin a Wigglesworth (2007:) yn datgan bod mabwysiadu profion wedi'u cyfeirio gan norm "is widely recognised as being problematic" wrth asesu pobl ddwyieithog cydamserol a fagwyd i siarad dwy iaith oherwydd gall y fath brofion, sydd fel rheol wedi'u seilio ar normau unieithog, roi pobl ddwyieithog dan anfantais. Mae Darlleniad 1 yn cyfeirio at ddulliau a drafodwyd gan Saenz a Huer (2003) a ddyluniwyd i leihau rhagfarn wrth asesu plant ddwyieithog, fel *ailsafoni* (renorming) ac *asesiad deinamig*. Fodd bynnag, fel y bydd modiwl diweddarach yn dangos (Agweddau Gwybyddol ar Ddwyieithrwydd, CYAD-7008), mae'r pryder y gall y fath brofion wedi'u cyfeirio gan norm achosi i bobl ddwyieithog cydamserol neu amgylchiadol i ymddangos yn gymharol ieithyddol gyfyngedig ac yn wybyddol ddiffygiol wedi'i wrthwynebu'n argyhoeddedig ers sawl blwyddyn gan dystiolaeth ymchwil sylweddol ac a gydnabyddir ar raddfa eang.

Fel y gwelir eisoes o drafodaeth flaenorol o is-sgiliau etc, mae dynodi meini prawf iaith at ddibenion profi'n broblem o ran diffiniad a mesuriad. Mae hon yn agwedd ar asesu a fydd yn mynd yn amlycach wrth inni astudio modelau a ddyluniwyd i ddarparu hefyd ar gyfer cydrannau *cymdeithaseg iaith* wrth fesur hyfedredd iaith.

Yn Narlleniad 4, mae Skutnabb-Kangas (1981) yn rhannu dulliau mesur dwyieithog yn ddau gategori:

1. **mesuriad sy'n cael ei hysbysu:** h.y. gwybodaeth a ddarperir gan y siaradwr neu'r siaradwraig eu hun, fel mewn holiadur neu gyfweiliad, ac sydd hefyd yn cynnwys data cefndir neu raddfeydd cefndir iaith, hunanasesiad a mesuriadau o agweddau.
2. **mesur trwy arsylwi** perfformiad ieithyddol y siaradwr trwy gyfweiliad neu arsylwi'r cyfranogwr pan geisir *cadarnhau data a adroddwyd gan y siaradwr*. Yn ôl Skutnabb-Kangas (1981), gellir rhannu profion iaith a ddefnyddir fel rhan o arsylwi ymddygiad ieithyddol yn ddau gategori:
 - (a) y rhai a ddyluniwyd i brofi hyfedredd pobl *unieithog* (felly'r angen i brofi'r siaradwr dwyieithog *ar wahân yn y ddwy iaith*) a'r
 - (b) rhai a ddyluniwyd i brofi hyfedredd *dwyieithog* y siaradwr, ac felly'n darparu'r gallu i wneud asesiad cymharol o'r ieithoedd dan sylw.

1. Mesur trwy ddata wedi'i hysbysu

Mae cyfweiliadau a holiaduron yn galluogi ar gyfer casglu data cefndir mewn perthynas â phryd, ble, gyda phwy, yn ogystal â pham mae siaradwr yn defnyddio gwahanol ieithoedd. Fel y mae Skutnabb-Kangas (1981) yn crybwyll yn Narlleniad 4, mae Atodlen Ddwyieithog Hoffman, er enghraifft, er gwaetha'r ffaith iddi gael ei chyhoeddi mor gynnar â 1934, yn parhau i gael ei defnyddio ac mae ynddi gwestiynau mewn perthynas â'r defnydd cynhyrchiol, derbyngar yn ogystal â goddefol a wneir o iaith. Mae'r sgorau ar gyfer pob cwestiwn wedi'u pwyso'n gyfartal ac wedi'u cyfartalu ar gyfer sgôr ddwyieithog. Fodd bynnag, mae'r fath weithdrefn yn amlygu'n syth berygl mabwysiadu dull wedi'i orsymleiddio i bob pwrpas i set hynod gymhleth o newidynnau, arfer yr oedd Haugen (1964) er enghraifft, yn weddol feirniadol ohoni (Skutnabb-Kangas, 1981).

Mae Darlleniad 4 yn ei gwneud hi'n ddigon amlwg bod ystod y newidynnau sydd ynghlwm ym mhrofiad ieithyddol cynhyrchiol, derbyngar a goddefol yr unigolyn, yn ogystal â'r amhosibilrwydd pur o gysylltu pwysiad dilys â phob newidyn, yn gwneud mesuriad cywir yn anodd iawn ac yn broblematic.

Mae Baker (2008) yn amlygu diffygion y graddfeydd cefndir iaith o ran y parthau cyfyngedig a'r cyd-sgwrsuwr sy'n tueddu i gael eu cynnwys. Fodd bynnag, mae sefyllfa ddamcaniaethol a ddisgrifiwyd gan Baker a Hinde (1984: 46) yn egluro'n glir na fyddai cynyddu ystod y cyd-destunau a'r bobl a gynhwysir gan y fath ymarfer o reidrwydd yn sicrhau dibynadwyedd y data:

"A person who says she speaks Welsh to her father (mostly away at sea), her grandparents (seen once a year), her friends (but tends to be an isolate), reads Welsh books and newspapers (only occasionally), attends Welsh chapel (marriages and funerals

only) but spends most of her time with an English speaking mother and in an English speaking school, might gain a fairly high 'Welsh' score."

Tynnwyd sylw'n gynharach at fater sylfaenol y gwahaniaeth rhwng sgil iaith (gwybodaeth/ gallu) a defnydd; yr hyn y mae Mackey (1962) yn cyfeirio ato fel *gradd a swyddogaeth*. Fodd bynnag, mae mesur *hyfedredd* iaith gan ddefnyddio holiaduron fel Atodlen Ddwieithog Hoffman, yn codi materion o ran methodoleg amheus. Fel y mae Chin a Wigglesworth (2007:38) yn datgan:

"While language background scales ...have been used extensively in bilingual research, they do not purport to measure the proficiency of speakers, rather their patterns of language use across a variety of domains."

Fel Baker (2011), mae Skutnabb-Kangas (1981:197-8) yn rhestru nifer o faterion sy'n gwneud data wedi'i hysbysu'n amheus iawn, megis yr arfer yn y gorffennol yn lwerddon o dalu rhieni i siarad Gaeleg â'u plant. Serch hynny, mae'n datgan:

"If the above caveats are borne in mind as to the possible sources of error, background data can be used as one kind of measurement of bilingualism. The collection of background data is the easiest way of acquiring information about the use of language," gan ychwanegu, fodd bynnag, er gwaetha'r anawsterau ymarferol "a more reliable way would be a lengthy period of participant observation."

O gofio, cyn belled ag sy'n ddynol bosibl, bod rhaid ystyried bod cywirdeb yn hollbwysig, mae'n anodd gweld sut gellir argymhell y dull hwn fel dull o *fesur* lefelau hyfedredd dwieithog. Er enghraifft, yng Nghymru, oherwydd ymadawriad diweddar o hen arfer, mae asesu hyfedredd plant yn y Gymraeg at ddiben y cyfrifiad deng mlynedd bellach yn gyfrifoldeb i'r rhieni yn hytrach na phrifathrawon gyda chanlyniadau y gellir dadlau eu bod yn amheus. Mae hyn yn ein cyflwyno ni i'r dull mesur nesaf, sef hunanasesiad.

Hunanasesiad

Gyda hunanasesiad, mae disgwyl i'r siaradwr/siaradwraig asesu ei (g)allu ieithyddol ei hun o ran hyfedredd (gradd) ac /neu ddefnydd (swyddogaeth). Gall y fath ymarferion amrywio'n sylweddol o ran cynnwys a manylder fel yr eglurir yn Narlleniad 4. Unwaith eto, mae Skutnabb-Kangas (1981:198) yn datgan bod hunanasesiad "seems to be a fairly reliable way of measuring bilingualism", gan gyfeirio at Arolwg Mewnfudwyr Sweden fel tystiolaeth, ac eto mae'n pwyntio at amryw faglau a all effeithio ar ddibynadwydd y data. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- statws L2 (neu hyd yn oed L1) yn y gymuned
- swm y cyswllt gyda'r naill iaith neu'r llall
- safonau a hunan ddisgwyliadau ieithyddol unigolyn ei hun
- adborth (geiriol neu fel arall) ac agwedd siaradwyr brodorol, fel y gwelir gan y siaradwr.

Gan ail-gadarnhau rhai o'r materion a grybwyllwyd gan Skutnabb-Kangas (1981), mae Baker (2011: 25-26) hefyd yn cyfeirio at amryw broblemau sy'n gysylltiedig â hunanasesiad o hyfedredd iaith, gan gynnwys, ymhlith eraill:

- *amwysedd* cwestiynau sy'n defnyddio geiriau a all ymdrin ag ystod eang o hyfedredd ieithyddol yn ogystal â'r rhai nad ydynt o bosibl yn gwahaniaethu rhwng gallu a defnydd iaith
- yr angen i nodi *parthau hyfedredd*
- dymuniad yr ymatebydd i uniaethu â'r iaith am resymau statws mewn cyd-destun *ychwanegol* neu wneud hynny fel arall mewn cyd-destun *tynnol*
- defnyddio hyfedredd unieithog fel pwynt cymharu.

Dylem gofio hefyd y materion nad yw'r siaradwr pob dydd yn ymwybodol ohonynt o bosibl. Mewn perthynas â hyfedredd iaith, fel a drafodwyd yn flaenorol, mae Cummins (1984) yn gwahaniaethu rhwng Sgiliau Cyfathrebu Rhyngberonol Sylfaenol (BICS) a Hyfedredd Iaith Academaidd Wybyddol (CALP) (yr hyn y cyfeiriodd Skutnabb-Kangas a Toukomaa (1976) ato'n briodol fel *rhuglder ar yr wyneb* ac *agweddau sy'n gysylltiedig yn academaidd â hyfedredd iaith*) sydd, o siarad yn gyffredinol, yn gwahaniaethu rhwng lleferydd pob dydd ac iaith gysyniadol o natur fwy academaidd. Mewn perthynas â'r broses hunanasesu, gallai rhuglder ieithyddol o ran delio â phynciau pob dydd ac mewn parthau cyfarwydd fod yn gamarweiniol o wynebu parthau a therminoleg y mae'r siaradwr yn llai cyfarwydd â nhw.

Er gwaetha'r cyfyngiadau sydd ynghlwm â mesur hyfedredd ieithyddol trwy ddulliau hunanasesu, serch hynny, fel rhan o'i Bortffolio Iaith Ewropeaidd, mae Cyngor Ewrop wedi datblygu Pasport Ieithoedd Ewropeaidd. Fel y crybwyllwyd yn Narlleniad 1 gan Chin a Wigglesworth (2007), dyma offeryn sy'n galluogi ar gyfer gwneud hunanasesiad mewn amryw feysydd yn y pedwar sgil sylfaenol, sef

- Dealltwriaeth (Darllen a Gwranddo)
- Siarad (rhyngweithio a chynhyrchu)
- Ysgrifennu

Gwneir asesiad ar raddfa chwe phwynt sy'n ymdrin â lefelau hyfedredd uwch, canolraddol a dechreuwyr.

Unwaith eto, fel y gwelwyd yn flaenorol, mae'n ddadleuol amlwg bod gormod o newidynnau ynghlwm mewn hunanasesiad i'w gwneud yn fesuriad dibynadwy ac yn un y gellir cael hyder llwyr ynddo.

Y mater hwn sy'n sail i drafodaeth Skutnabb-Kangas (1981) o dan yr is-deitl "Mesur disgrifiadau" gan nodi y gellir defnyddio'r data cefndir yn well i *ddisgrifio'r* dewis a'r defnydd iaith yn hytrach na *mesur* ei lefel hyfedredd, gan awgrymu bod yr un olaf yn annibynadwy. Gwneir y fath awgrym yn amlycach trwy ddatgan, o'i ddefnyddio ar gyfer mesur, "the variables have to be restricted so that one single measurement can be produced" gan ychwanegu "the choice of variables is crucial, and will at the same time also be a measurement of the researcher's ideological and political priorities." (Skutnabb-Kangas, 1981:201).

Agweddau

Mewn perthynas â'r astudiaeth o agweddau at ieithoedd, cynigia Baetens Beardsmore (1991:99) amryw enghreifftiau ym Mhennod 3 o ymchwil sy'n adlewyrchu methodoleg sefydledig (gan gynnwys graddfa Likert a *Matched Guise Technique* Lambert), y cyngorir y myfyriwr i roi rhywfaint o sylw iddynt. Er bod yr astudiaeth o'r agwedd hon o ymchwil, *ethnoieithyddiaeth* (ethnolinguistics), yn gysylltiedig yn agos â chymdeithaseg iaith a fydd yn cael ei hastudio yn y modiwl nesaf (ECDA-7011C), ceir eto cyswllt cryf rhwng agwedd a chymhelliant a llwyddiant wrth gaffael ail iaith, y cynhaliwyd llawer o ymchwil ynddo. Mae Pennod 3 hefyd yn cysylltu agwedd a chymhelliant gyda *hyfedredd dwyieithog* yn nes ymlaen ac yn trafod materion megis cysyniad *cymhelliant allweddol* a *chymhelliant integreiddiol* er enghraifft.

Dylid nodi bod y bennod hefyd yn mynd ati i drafod ymchwil sy'n ymwneud â materion gwybyddol a'r berthynas rhwng dwyieithrwydd a deallusrwydd a fydd yn cael eu hastudio unwaith eto mewn modiwl diweddarach. Mae hefyd yn mynd i'r afael â materion agweddau tuag at ieithoedd a defnyddwyr iaith. Fodd bynnag, mae gan y cynnwys ddimensiwn cymdeithaseg iaith gan mwyaf.

2. Ymddygiad ieithyddol wedi'i arsylwi

Gellir cadarnhau'r mesuriad o ymddygiad ieithyddol (sgiliau cynhyrchiol a derbyngar) trwy gyfrwng data wedi'i hysbysu trwy fabwysiadu dulliau arsylwi, y mwyaf gwrthrychol o'r rheiny yw'r rhai sy'n asesu hyfedredd iaith trwy gyfrwng profion. Unwaith eto, fodd bynnag, mewn perthynas â dibynadwyedd, cafeat pwysig iawn a gynigir yn Narlleniad 4 yw ein bod ni'n cofio bod:

"Many linguists still doubt that we know enough about language, language learning and linguistic proficiency to be able to construct adequate, varied, objective, linguistic tests."
(Skutnabb-Kangas, 1981:206).

Mae Darlleniad 4 yn nodi'r ffaith y gellir dosbarthu profion a ddyluniwyd i fesur hyfedredd fel:

1. y rhai sy'n anelu at astudio hyfedredd y siaradwr unieithog a lle mae'r siaradwr brodorol unieithog yn bwynt cyfeirio i wneud cymariaethau a'r
2. sawl sydd wedi'u dylunio i astudio hyfedredd dwyieithog.

Dyluniwyd y gwaith o fabwysiadu profion yn y categori cyntaf i asesu hyfedredd yr unigolyn dwyieithog yn erbyn hyfedredd yr unieithydd yn iaith yr un olaf (ar sail y dybiaeth fod person dwyieithog yn gallu cyflawni lefel gyfartal o hyfedredd yn yr iaith benodol honno), lle mae profion yn yr ail categori'n asesu'r gwahaniaethau rhwng y siaradwr unieithog a'r siaradwr dwyieithog h.y. priodweddau ieithyddol yr unigolyn dwyieithog.

Bydd y myfyriwr yn awgrymu bod y categoreiddio hwn yn cyfateb yn gyffredinol i'r gwahaniaethu a wnaed gan Chin a Wigglesworth (2007) rhwng pobl ddwyieithog o ddewis a phobl sy'n ddwyieithog yn sgil amgylchiadau. Fel y mae Chin a Wigglesworth (2007) yn crybwyll hefyd, mae'r cwestiwn o ran a ddylid asesu hyfedredd pobl ddwyieithog gytbwys yn erbyn normau siaradwyr brodorol unieithog yn fater dadleuol. Mae Grosjean (1989) yn dadlau nad yw siaradwr

dwyeithog yn gyfuniad o ddau siaradwr unieithog, safbwynt a rennir gan DeGroot a Kroll (1992) hefyd.

Profion sy'n defnyddio'r person unieithog fel pwynt cyfeirio neu'r norm

Yn Narlleniad 1, mae Chin a Wigglesworth (2007) yn cyfeirio at y mathau canlynol o brofiad fel a grybwyllwyd gan Henning (1987):

- Profion hyfedredd
- Profion cyflawniad
- Profion diagnostig
- Profion lleoliad

Fodd bynnag, mae Skutnabb-Kangas (1981), yn rhannu'r rhain yn 3 chategori, sef:

- (a) profion â gogwydd addysgol
- (b) profion â gogwydd ieithyddol
- (c) profion â gogwydd seicolegol

(a) Profion â gogwydd addysgol

Fel rheol, mae'r rhain yn brofion sy'n gysylltiedig ag addysgu iaith er mwyn penderfynu ar lefel hyfedredd yn L2 naill ai cyn neu ar ôl ymgymryd â gwersi iaith. Maent yn canolbwyntio ar asesu hyfedredd yn L2 ac fel rheol, nid ydynt yn ystyried L1 gan eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion fel asesu'r unigolyn ar gyfer gwersi trwy gyfrwng L2, er enghraifft. Fel y mae Darlleniad 4 yn crybwyll, mae'r rhain wedi'u beirniadu am beidio â bod yn gysylltiedig ag unrhyw theori ieithyddol. Er enghraifft, er gwaetha'i gyfraniad diweddarach at addysgeg, efallai nad oes digon o sylw wedi'i roi yn y gorffennol i astudiaethau mewn plethiad iaith sydd, fel yr esboniwyd yn flaenorol, yn ystyried y ffenomenon hwn fel cyfres o gamau datblygiadol lle mae'r dysgwr yn adeiladu ei reolau gramadegol ei hun yn y broses o symud tuag at norm siaradwr brodorol L1.

(b) Profion â gogwydd ieithyddol

Mae'r feirniadaeth sydd wedi'i hanelu at brofion â gogwydd ieithyddol am beidio â gallu darparu ar gyfer cymhlethdodau cyswllt cymdeithasol go iawn, pob dydd yn cael ei gydnabod ar raddfa eang, fel y byddwn yn gweld yn nes ymlaen wrth drafod modelau soffistigedig a ddyluniwyd i roi sylw dyledus i ystod y newidynnau sydd ynghlwm yn y broses o fesur hyfedredd iaith. Fodd bynnag, fel y mae Darlleniad 4 yn nodi, er gwaethaf dilysrwydd y fath feirniadaeth, dylem fod yn ofalus i beidio â bod yn fyrbwyll trwy anwybyddu defnyddioldeb y fath brofion mewn cyd-destunau penodol, oherwydd gallant fod yn llawn gwybodaeth wrth bwyntio at ddiffygion penodol yn y broses datblygiad ieithyddol.

(c) Profion â gogwydd seicolegol

Gweler Darlleniad 4 (Skutnabb-Kangas, 1981: 209)

Profion hyfedredd ieithyddol dwyeithog

Datblygwyd profion hefyd sy'n trin hyfedredd dwyeithog fel system ieithyddol unedig, yn wahanol i'r duedd yn y gorffennol i brofi ieithoedd ar wahân gan ddefnyddio siaradwr brodorol unieithog fel pwynt cyfeirio neu'r norm. Fel y mae Skutnabb-Kangas (1981) yn datgan, roedd hynny'n arfer a gynrychiolodd theori "dau god" hyfedredd iaith neu'r hyn y mae Cummins yn cyfeirio ato fel y Model

Hyfedredd Gwaelodol Ar Wahân (SUP) (Separate Underlying Proficiency Model) (gweler Baker, 2011:165-167).

Mae Darlleniad 4 yn tynnu sylw hefyd at y ffaith fod hyn wedi adlewyrchu agweddau negyddol tuag at ddwyieithrwydd, “the description and enumeration of the characteristics of bilinguals as though they were the symptoms of a disease, a deviation from the healthy norm represented by monolingualism” (Skutnabb-Kangas, 1981:2010). Fel y mae Baker (2011:164) yn dangos hefyd, adlewyrchodd y fath agweddau rhagfarnol y “Balŵn” a gredir yn gyffredinol neu'r Theori Cydbwysedd a ganfyddodd fod ieithoedd yn bodoli ac yn gweithredu ar wahân yn yr ymennydd, bod datblygiad neu “chwyddiant” L2 ar draul neu “dadchwyddiant” L1. Fodd bynnag, fel y byddwn yn gweld ym modiwl ECDA-7004C (Agweddau Gwybyddol ar Ddwyieithrwydd), mae'r meddylfryd presennol yn adlewyrchu'r analog “Mynydd Iâ” (Baker, 2011:165) sy'n ystyried bod y broses wybyddol ddwyieithog yn deillio o un system weithredu *unedig*.

Cydbwysedd neu Ddominyddiaeth

Mae Baetens Bearsdmore (1991:90) yn datgan bod yr ymdrech i fesur dominyddiaeth iaith mewn pobl ddwyieithog “represents a hazardous venture for which some intriguing solutions have been proposed.”

Yn aml, defnyddir y term “person dwyieithog llywodraethol” i gyfeirio at rywun dwyieithog a chanddo fwy o hyfedredd mewn un iaith, defnyddir y term “iaith israddol”, felly i gyfeirio at yr un gwannaf o'r ddwy.

Ymddengys bod profion hyfedredd dwyieithog yn adlewyrchu cred sylfaenol fod dwyieithrwydd cytbwys yn gyflwr o hyfedredd ieithyddol y dylid anelu ato yn ogystal â'r gysail po fwyaf cytbwys yw'r ddwy iaith, y mwyaf dwyieithog mae'r siaradwr yn debygol o fod. Fodd bynnag, er gwaetha'r duedd gyffredin i hafalu'r term *person dwyieithog cytbwys* gyda meistrolaeth effeithiol o'r *ddwy* iaith, mae'r defnydd o *gydbwysedd* fel mesuriad yn ddiffygiol gan nad yw'r maen prawf “cydbwysedd” o reidrwydd yn mynd law yn llaw â rhuglder neu hyfedredd, fel y gwelsom yn gynharach yn ein trafodaeth o ledieithyddiaeth.

Mae Skutnabb-Kangas (1981) hefyd yn cyfeirio at feirniadaeth Fishman (1968) o ddefnyddio cydbwysedd fel mesur o ddwyieithrwydd oherwydd, mewn cymdeithasau deuglosig lle defnyddir gwahanol ieithoedd yn aml ar gyfer gwahanol swyddogaethau, gall hyfedredd ieithyddol amrywio ar draws ystod o barthau. O safbwynt *cymdeithaseg iaith*, gallai ffyrdd o gynnal cymdeithas ddeuglosig fod yn ddilys. Fodd bynnag, mewn perthynas â *mesur dwyieithrwydd mewn unigolyn*, prin y gellir anwybyddu anallu siaradwr “dwyieithog” dywededig i ddefnyddio un o'i (h)ieithoedd yn weddol fedrus mewn rhai parthau.

Mae'r mater hwn yn ymwneud hefyd â mesur arglwyddiaeth (mewn cyferbyniad â chydbwysedd). Wrth feirniadu mesur arglwyddiaeth, mae Darlleniad 4 yn diffinio'n glir “arglwyddiaeth” yn rymus o ran *defnydd* iaith yn ogystal â gallu, gan ddatgan y gall canlyniadau profion arglwyddiaeth gael eu sgiwio trwy gyfyngu ar y parthau a ddewiswyd ar gyfer y prawf:

“Before the dominance measurement can be used as a measurement of bilingualism, *the bilingual's linguistic ability should be tested in a number of different domains* to guarantee that the content of the test material is representative at least to

a certain extent. As long as the dominance measurement uses material *that takes no account of the domains in which a bilingual might be dominant* in which language..., the measurement of dominance that results will be largely a matter of chance”.

Skutnabb-Kangas (1981:2011-12) (emphasis added).

Fodd bynnag, er bod Baetens Beardsmore (1991), yn cydnabod dilysrwydd defnydd Dodson (1981) o'r term “iaith ddethol” mewn perthynas ag arbenigedd swyddogaethol neu barthau *defnydd*, ymddengys ei fod yn diffinio arglwyddiaeth yn sylfaenol o ran *gallu*:

“With the late bilingual...it is highly unlikely that the second language becomes dominant in the sense of *the language of primary grammatical functioning*, though this may well become dominant in the sense of most frequently used or preferred.”

Baetens Beardsmore (1991:90) (emphasis added).

Er nad oes modd canfod arwyddion clir o arglwyddiaeth yn hawdd yn achosion dwyieithrwydd cynnar, ac felly'n adlewyrchu lefel hyfedredd cytbwys o bosibl, ac eto fel y nodwyd, gallai hyfedredd cytbwys a gyflawnwyd trwy broses *olynol* yn hytrach na chydamserol arwain at arglwyddiaeth mewn rhai *parthau*. Gallai'r myfyriwr ganfod lefel benodol o ddeuoliaeth ar y pwynt hwn o ran sut dylid diffinio arglwyddiaeth a dicotomi mynych gradd (gallu) a swyddogaeth (defnydd).

Lle mae agweddau penodol ar *ymyrraeth* (gweler uchod) yn yr iaith israddol i weld yn amlwg, ond yn fesur arwynebol o bosibl ar arglwyddiaeth, mae Baetens Beardsmore (1991) yn cynnig manylion ystod eang o ddulliau eraill a fabwysiadwyd ar gyfer y pwrpas hwn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phroffion cyflymder.

Profion cyflymder

Mae profion cyflymder yn cwmpasu sgiliau ieithyddol cynhyrchiol a derbyngar. Mae'r fath brofion i weld yn seiliedig ar y gysail fod y cyflymder y mae unigolyn yn ymateb i ysgogiad, neu swyddogaethau mewn iaith benodol, yn adlewyrchu lefel benodol o hyfedredd. Mewn termau cymharol, po fwyaf cyflym yw'r ymateb mewn un iaith (neu po fwyaf yw'r cynhyrchiad mewn amser cyfyngedig) cymerir hefyd ei fod yn arwydd o arglwyddiaeth un dros y llall. Fodd bynnag, unwaith eto, ni ddylid drysu arglwyddiaeth gyda hyfedredd. Mae'n amlwg y gall unigolyn fod yn fedrus mewn dwy iaith (neu'n fwy) ond gan lywodraethu mewn un ohonynt, neu'n llywodraethu mewn un wrth sgwrsio, ond ar lefel hyfedredd cymharol isel. Mae'r fath brofion wedi cynnwys:

- *cyflymder yr ymateb* i gyfarwyddiadau yn y ddwy iaith neu mewn prawf cyswllt geiriau
- *nifer y geiriau* a gynhyrchwyd mewn swm penodol o amser mewn ymateb i ysgogiad
- *nifer y geiriau* a gofiwyd mewn cyfnod cyfyngedig o amser

- nifer y geiriau a grëwyd yn y ddwy iaith o air ffôl, y mae ei lythrennau'n cynrychioli'r ddwy iaith. Mae Baker (2011) yn rhoi DADSONODEND fel enghraifft
- yr amser a gymerir i ddarllen yn y ddwy iaith.

Mae'n gyffredin i ymateb y person dwyieithog fod ychydig yn hwy naill ai mewn un iaith neu'n fwy na'r person unieithog, yn enwedig mewn achosion lle gallai'r ysgogiad fod yn y naill iaith neu pan fydd ansicrwydd mewn perthynas â'r iaith y mae'r ysgogiad yn debygol o fod. Fodd bynnag, mewn perthynas â dilysrwydd defnyddio cyflymder fel maen prawf i *ddefnydd* iaith, unwaith eto, mae Darlleniad 4 yn codi rhai materion pwysig gan nad oes gan y fath faen prawf fawr o werth mewn rhai diwylliannau (Fishman, 1968:24-25) a dim pwysigrwydd ymarferol yn y rhan fwyaf o gyd-destunau ieithyddol (Mägiste, 1979:99).

Mae Baker (2011:34) yn crybwyll hefyd fod materion dilys eraill sy'n gysylltiedig ag arglwyddiaeth a phrofion cydbwysedd yn enwedig o ran cynrychioli lefel yr hyfedredd oherwydd "such tests would appear to tap only a small part of a much larger and complex whole (language ability or language use)."

Mae profion a ddyluniwyd i ganolbwyntio ar asesu agweddau penodol ar iaith, boed yn allu, defnydd, cydbwysedd neu arglwyddiaeth etc, yn methu'n anochel â chwmpasu cydrannau ehangach a allai amharu ar yr agweddau sy'n cael eu profi. Rhoddir y pwyslais ar *brofi* yn ystod yr hyn y disgrifiodd Spolsky (1976) fel y cam seicometrig-strwythurol wrth ddatblygu profion iaith, tueddodd i anwybyddu'r sefyllfaoedd bywyd go iawn, pob dydd y defnyddir iaith ynddynt. Fel y mae Baker. (1993:26) yn datgan:

"In attempting to assess a bilingual's competence in two languages, there is a danger of using a simple paper and pencil test, believing the test will provide a faithful estimation of everyday language life. ...In order to collect data which is realistic and representative, we need to know how situations (domains) relate to one another. We also need to know the sample of language performance that relates adequately to all round language competence and what examples of test performance relate strongly to language competence. This demands an overall model or theory of language competence." (Baker,1993:26)

Mae Baker (1993) yn cyfeirio at gyfweiliad llafar Gwasanaeth Tramor UDA fel esiampl o ymdrechion mwy diweddar yn y broses brofi i ymgorffori sgiliau iaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan ddatgan fodd bynnag:

"There are doubts about whether such interview procedures can validly imitate and investigate real communicative competence. At the same time, they are a compromise between artificial pencil and paper tests and the impracticality of the detailed observation of individuals." (Baker, 1993:27)

Modelau Hyfedredd Iaith Cyfathrebu

Mewn ymdrechion pellach i ddarparu'r agweddau pob dydd "go iawn" o sgwrs gymdeithasol wrth brofi hyfedredd iaith, datblygwyd modelau eraill, mwy soffistigedig o Hyfedredd iaith Gyfathrebu gyda'r nod o integreiddio amryw gydrannau ieithyddol, cymdeithaseg iaith a chymdeithasol-ddiwylliannol mewn asesiad a mesuriad cyffredinol. Mae Chin a Wigglesworth (2007:3) yn datgan bod "the impact of social, psychological and cultural variables on the bilingual individual is ultimately central to the experience of being bilingual."

Mae Baker (2011:13) yn nodi bod theorïau iaith gynharach y 1960au yn tueddu i ganolbwyntio dim ond ar sgiliau *ieithyddol* a chydannau mewn perthynas â hyfedredd yr unigolyn a methodd â chynnwys agweddau ar *drafnod cyfraniad a rôl pobl eraill*, fel a ganfuwyd mewn sgwrs go iawn. Ac eto, mae Malherbe (1969:50, a ddyfynnwyd yn Baetens Beardsmore (1991)) yn darparu arwyddion cynnar o gwestiynu dilysrwydd y fath ddull:

"It is doubtful whether bilingualism *per se* can be measured apart from the situation in which it is to function in the social context in which a particular individual operates linguistically. The only practical approach ... is to assess bilingualism in terms of certain social and occupational demands of a practical nature in a particular society...Purpose and function are the main determinants."

mae Baker (2011:14-15), felly'n cyflwyno eglurhad o'r fath ddull, sef Model Hyfedredd iaith Bachman's (1990) sy'n dynodi'n glir bod ystod o newidynnau y mae angen eu hymgorffori mewn asesiad dilys a dibynadwy o hyfedredd ieithyddol. Fel y mae Bachman (1990:84) yn datgan:

Communicative Language Ability can be described as consisting of both knowledge, or competence, and the capacity for implementing, or executing that competence in appropriate, contextualized, communicative language use."

Fel y mae Jones (1997) yn nodi, amlygwyd manteision defnyddio Model Hyfedredd Cyfathrebu mewn astudiaethau dwyieithrwydd gan Baetens Beardsmore (1986). Mae ei sail ddamcaniaethol yn bwysig gan ei fod yn ymwneud nid yn unig â gwybodaeth ramadegol yr ieithoedd a ddefnyddiwyd gan y siaradwr ond hefyd agweddau a goblygiadau cymdeithasol eu defnydd. Felly, gall ddarparu esboniad mwy cynhwysfawr o ymddygiad ieithyddol yr unigolyn dwyieithog. O ran yr hyn sy'n gwneud iaith person dwyieithog yn wahanol i'r unieithydd, gall ymchwilio i faterion ehangach na'r rhai sydd o natur *ieithyddol* bur a briodolwyd i ymyrraeth. Fel y mae Baetens Beardsmore (1991: 46) yn dangos, ac fel a grybwyllwyd yn gynharach mewn perthynas â chyfnod codau, nid yw defnyddio mwy nag un iaith mewn sgwrs o reidrwydd yn arwydd o wendid ieithyddol:

"...a bilingual in communication with another bilingual who shares the same linguistic background may feel free to use both of his language repertoires on the assumption that communication may well be enhanced by using elements from two languages- if so, there is no question of impaired communication brought about by what has traditionally been considered as interference."

Gall y fath fframwaith damcaniaethol ddarparu ar gyfer ffenomena ieithyddol arall hefyd, fel y defnydd o blethiad iaith yn y broses gyfathrebu (Baetens-Beardsmore, 1991) yn ogystal â ffosileiddio pan fydd unigolion yn dod i lefel hyfedredd cyfathrebu “derbyniol” a pheidio â datblygu ymhellach (Jones, 1987). Fodd bynnag, agwedd arall ar ymddygiad ieithyddol y gellir ei ymgorffori yn y fath fframwaith yw Theori Addasu Cyfathrebu (CAT).

Theori Addasu Cyfathrebu (CAT)

Yn Narlleniad 5, mae Sachdev a Giles (2006:355) yn diffinio Theori Addasu Cyfathrebu fel ymgais “to model the motives and evaluations of switching in terms of a balance of social psychological processes focusing on social integration and differentiation” gan adlewyrchu’r ffaith fod “individuals use communication, in part, to indicate their attitudes toward each other and, as such, communication is a barometer of the level of social distance between them. This constant movement toward and away from others, by changing one’s communicative behaviour, is called *accommodation*.”

Mae Darlleniad 5 yn cyfeirio at amryw agweddau ar addasu sy’n cynnwys:

- *cydgyfeirio*, lle mae unigolion yn addasu eu lleferydd trwy fabwysiadu nodweddion a grybwyllwyd i fod yn: ieithyddol (e.e. acenion); para-ieithyddol (e.e. seibiau); heb fod yn eiriol (e.e. gwenu): yr amcan yw mynd yn “debycach i ymddygiad y sgwrsiwr”
- *dargyfeiriad* a ddiffinnir fel “pwyslais o ran gwahaniaethau iaith (a diwylliannol)”
- *cynhaliaeth* sy’n nodweddu’n syml y dymuniad i gynnal y defnydd o iaith frodorol heb briodweddau dargyfeiriad.

Fodd bynnag, fel y mae’r Darlleniad yn dangos, mae cydgyfeirio a dargyfeiriad yn nodweddion o ymddygiad ieithyddol y gellir eu dadansoddi ymhellach, er enghraifft, sydd “ar i fyny” neu “yn mynd i lawr”. Mae’r Darlleniad yn mynd ati i astudio cymhellion sy’n sail i fabwysiadu’r fath strategaethau ieithyddol (gan gynnwys ymhlith eraill y dymuniad i ennill cymeradwyaeth y sgwrsiwr derbyngar) ac yn darparu enghreifftiau esboniadol pellach o agweddau cadarnhaol a negyddol y fath gymhellion. Mae’n amlygu hefyd y deinameg grym sy’n gysylltiedig â chysyniad y “rhyng grŵp” a mater hunaniaeth gymdeithasol. Yn olaf, mae, Sachdev a Giles (2006) yn darparu’r hyn maen nhw’n cyfeirio ato fel Model â Gogwydd Cymdeithasol-Seicolegol o Addasu Dwyieithog sy’n galluogi i astudio tri dosbarth o newidynnau ymhellach a all feddu ar rôl hollbwysig ym mhroses cyfathrebu dwyieithog, sef, y rhai sy’n ymwneud â’r:

- cyd-destun rhwng grwpiau cymdeithasol
- y lleoliad cymdeithaseg iaith
- prosesau cymdeithasol seicolegol.

Fel y mae’r Darlleniad yn nodi trwy ddyfynnu Coupland a Jaworski (1997: 241-242), mae’r hyn a ddechreuodd yn y 1970au fel cysyniad sy’n gysylltiedig â gwerthuso’r acen unieithog wedi datblygu’n “interdisciplinary model of relational and identity processes in communicative interaction.” Fodd bynnag, bydd y myfyriwr yn cydnabod ac yn deall yn syth berthnasedd CAT i’r Modelau Hyfedredd Iaith Cyfathrebu a drafodwyd yn flaenorol, fel both pellach, bach ac eto pwysig

mewn olwyn llawer mwy ac yn gydran ddilys iawn o ran gosod y mesuriad sgiliau *ieithyddol* bur mewn cyd-destun *cymdeithaseg iaith* ehangach. Mewn geiriau eraill, mae'n cynnig ffordd o addasu unrhyw newidynnau seicolegol a micro-wleidyddol a allai fodoli yn y rhyngwyneb rhwng gradd a swyddogaeth.

Mae'r astudiaeth o Theori Addasu Cyfathrebu yn Narlleniad 5 yn mynd â ni hefyd i gyfeiriad maes ehangach o ddeinameg iaith grŵp a chymdeithasol a'r sylweddoliad fod dimensiwn y *swyddogaeth* yn gwneud y llinell rhwng dwyieithrwydd unigol a chymdeithasol yn denau ac athraidd iawn, fel y byddwn yn darganfod yn y modiwl nesaf, ECDA-7011C, Dwyieithrwydd Cymdeithasol.

Casgliad

Mae Skutnabb-Kangas(1981) yn cyfeirio at dri cham gwahanol wrth ddatblygu profion iaith fel a ddisgrifiwyd gan Spolsky (1976), sef:

- y rhag-wyddonol
- y seicometrig-strwythurydd
- y seico-ieithyddol-cymdeithaseg iaith

Nodweddwyd y cyntaf gan orddibyniaeth ar weithdrefnau greddfodol i benderfynu beth oedd y cydrannau hollbwysig wrth fesur sgiliau ieithyddol, ond heb gael eu seilio mewn unrhyw theori mewn perthynas â hyfedredd neu ddefnydd.

Nod yr ail gam oedd sicrhau mwy o fanwl gywirdeb technegol ac ystadegol wrth brofi, ond nid oedd hyn yn ystyried yr agweddau cymdeithaseg iaith ar y cyd-destunau a'r dibenion y defnyddir y naill iaith neu'r ddwy ohonynt.

Mae'r trydydd cam wedi ceisio mynd i'r afael â'r agwedd gymdeithasol ieithyddol hon trwy ymdrechu i asesu hyfedredd iaith mewn sefyllfaoedd "go iawn" gan ddarganfod mewn ymdrechion i wneud iawn am ddiffygion blaenorol, efallai bod y cydbwysedd wedi gwyro gormod i'r cyfeiriad hwnnw. Mae Skutnabb-Kangas (1981:220) yn disgrifio hyn fel "eagerness to test what people actually *do* with their languages (instead of or in addition to testing what they *could* do..." gan ddatgan bod "the danger with this more sociolinguistically-orientated kind of testing is that we forget that language is also for purposes other than everyday communication..."

Mae graddfa'r cymhlethdod ieithyddol, cymdeithaseg iaith, cymdeithasol ddiwylliannol a methodolegol sydd ynghlwm wrth sicrhau bod dibynadwyedd profion iaith wedi achosi rhai i gwestiynau proses ar sail dilysrwydd. Efallai mai'r dyfyniad canlynol gan Skehan (1988) sy'n crynhoi'r mater sylfaenol:

"Genuine communication is inter-action based, with more than one participant; unpredictable and creative, i.e. genuine communication may take the participants in unforeseen directions; is situated in a context which is both linguistic / discorsal and also sociocultural; has a purpose, in that participants will be trying to achieve something by use of language, e.g. to persuade, to deceive, etc.; uses authentic stimulus materials and avoids contrived, specially produced materials; is based on real psychological conditions, such as time pressure; and is outcome evaluated, in that successful performance is judged in terms of whether communicative purposes have been achieved." (Skehan, 1988: 215).

Mae'r modiwl hwn wedi ymdrechu i gyflwyno'r myfyriwr i rai materion allweddol mewn perthynas â dwyieithrwydd *yn yr unigolyn* ond mae hefyd wedi dangos yn glir ar adegau sut mae'r rhain yn cysylltu ag agweddau ehangach a fydd yn cael eu hastudio mewn modiwlau diweddarach. Felly, byddai rhoi'r fath faterion mewn adrannau'n llwyr a'u hynysu wedi profi'n amhosibl ond hefyd yn anfanteisiol, gan fod ymwybyddiaeth o *gydadwaith y newidynnau* sy'n amgylchynu pob mater yn ffactor hollbwysig wrth wella a dyfnhau'n dealltwriaeth o bob un yn eu tro.

Cyfeiriadau

- Adler, K. *Collective and Individual Bilingualism: A Socio-linguistic Study*. Hamburg: Helmut Buske, Verlag, 1977.
- Appel, R. & Muysken, P. *Language Contact and Bilingualism*. London: Edward Arnold, 1987.
- Asher, J. & Garcia, G. The Optimal Age to Learn a Foreign Language. In S. Krashen, R. Scarcella & M. Long (eds) *Child-Adult Differences in Second Language Acquisition*. Rowley: Newbury House, 3-12, 1969 / 1982.
- Bachman, L.F. *Fundamental Considerations in Language Teaching*. Oxford: Oxford University Press, 1990.
- Baker, C. *Key Issues in Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters, 1988.
- Baker, C. *Foundations of Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters, 1993.
- Baker, C. *Foundations of Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters, 2008. (4th edition)
- Baker, C. *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters, 2011. (5th edition)
- Baker, C. & Hinde, J. Language Background Classification. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 5 (1), 43-56, 1984.
- Beatens Beardsmore, H. *Bilingualism: Basic Principles*. Clevedon: Multilingual Matters, 1991.
- Bhatia, T.K. & Ritchie, W.C. (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Oxford: Blackwell, 2006.
- Bialystok, E. Levels of bilingualism and levels of linguistic awareness. *Developmental Psychology* 24 (4), 560-567, 1988.
- Bialystok, E. *Bilingualism and development: Language, literacy, and cognition*. Cambridge: Cambridge University Press, pp.226-231, 2001.
- Bloomfield, L. Literate and Illiterate Speech. *American Speech* 2, 423-439, 1927. Reprinted in D. Hymes (ed.) *Language in Culture and Society. A Reader in Linguistics and Anthropology*. New York: Row & Harpers, 1964.
- Bloomfield, L. *Language*. New York: Holt Rinehart and Winston, 1933.

- Chapelle, C.A. Construct definition and validity inquiry in SLA research. In L.F. Bachman & A.D. Cohen (eds) *Interfaces between second language acquisition and language testing research*. Cambridge: Cambridge University Press, pp. 32-70, 1998.
- Chin, N. B. & Wigglesworth, G. *Bilingualism: an advanced resource book*. London: Routledge, 2007.
- Christopherson, P. *Bilingualism*. London: Methuen, 1948.
- Corder, S.P. The Significance of Learners' Errors. *International Review of Applied Linguistics* 5, 161-170, 1967.
- Coupland, N. & Jaworski, A. Relevance, accommodation and conversation: Modelling the social dimension of communication. *Multilingua*, 16, 235-258, 1997.
- Cromdal, J. Childhood bilingualism and metalinguistic skills: analysis and control in young Swedish-English bilinguals. *Applied Psycholinguistics*, 20: 1-20, 1999.
- Cummins, J. The influence of bilingualism on cognitive growth: A synthesis of research findings and explanatory hypotheses. *Working Papers on Bilingualism* 9, pp.1-43, 1976.
- Cummins, J. Educational implications of mother tongue maintenance in minority language groups. *Review of Educational Research* 49, pp.222-251, 1978.
- Cummins, J. Cognitive / academic language proficiency, linguistic interdependence, the optimum age question. *Working Papers on Bilingualism* 19, pp.121-129, 1979.
- Cummins, J. The construct of language proficiency in bilingual education. In J.E. Alatis (eds) *Georgetown University Round Table on Languages and Linguistics*. Washington DC: Georgetown University Press, 1980.
- Cummins, J. The role of primary language development in promoting educational success for language minority students. In California State Department of Education (ed.), *Schooling and Language Minority Students. A Theoretical Framework*. Los Angeles, CA: California State Department of Education, 1981.
- Cummins, J. Wanted: A theoretical framework for relating language proficiency to academic achievement among bilingual students. In C. Rivera (ed.) *Language Proficiency and Academic Achievement*. Clevedon: Multilingual Matters, 1984a.
- Cummins, J. *Bilingualism and Special Education: Issues in Assessment and Pedagogy*. Clevedon: Multilingual Matters, 1984b.
- Cummins, J. Language, power and pedagogy: Bilingual children in the crossfire. Clevedon: Multilingual Matters, pp. 66-71, 2000.
- De Groot, A. & Kroll, J. Tutorials in Bilingualism: *Psycholinguistic perspectives*. Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum, 1997.
- Diebold, A.R. Incipient Bilingualism. *Language*, XXXVII, 97-112, 1961.
- Diebold, A.R. Incipient Bilingualism. In D. Hymes (ed.), *Language in Culture and Society*. New York: Harper & Row, 1964.
- Dodson, C.J. *The Effects of Second Language Education on First / Second Language Development*. In B.M. Jones & P. Ghuman (eds) *Bilingualism, Education and Identity*. Cardiff: University of Wales Press, 1995.
- Dorian, N. Defining the Speech Community to include its Working Margins. In S. Romaine (ed.) *Sociolinguistic Variation in Speech Communities*. London: Edward Arnold, 25-33, 1982.

- Dulay, H. & Burt, M. Should we teach children syntax? *Language Learning*, 23,235-252,1973.
- Dulay, H., Burt, M. & Krashen, S. *Language Two*. Oxford: Oxford University Press,1982.
- Eastman, C.M. Codeswitching as an urban language, contact phenomenon. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 13 (1&2) pp.1-17, 1992.
- Edwards, J. *Multilingualism*. London: Routledge, 1994.
- Edwards, J. Foundations of Bilingualism. In T.K. Bhatia & W.C. Ritchie (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Oxford: Blackwell, 2006.
- Fishman, J. A. Who Speaks What Language to Whom and When? The Analysis of Multilingual Settings. *La Linguiste* 67-88, 1965.
- Fishman, J.A. *The Sociology of Language*. Rowley, Mass.: Newbury House, 1972.
- Fishman, J. A., Cooper, R. & Ma, R. *Bilingualism in the Barrio*. Bloomington: Indiana University Press, 1971.
- Frederickson, N. & Cline, T. *Curriculum related assessment with bilingual children: A set of working papers*. London: University College London, 1990.
- Gibbons, P. *Learning to learn in a second language*. Newtown, NSW : Primary English Teaching Association, 1991.
- Grosjean, F. *Life with Two Languages: An Introduction to Bilingualism*. Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press, 1982.
- Gumperz, J. J. *Discourse Strategies*. Cambridge: Cambridge University Press, 1982.
- Hakuta, K. & Diaz, R.M. The relationship between degree of bilingualism and cognitive ability: a critical discussion and some new longitudinal data. In K.E. Nelson (ed.) *Children's Language* Vol. 5. Hillsdale, NJ: Lawrence Erlbaum, pp. 319-344.
- Halliday, M.A.K.,McIntosh, A. & Strevens, P. The Users and Uses of Language. In J.A.Fishman (ed.) *Readings in the Sociology of Language*. The Hague: Mouton, 139-169, 1970.
- Hamers, J. F. & M.H.A. Blanc. *Bilinguality and Bilingualism*. Cambridge: Cambridge University Press, 1989.
- Hammerly, H. *French Immersion: Myths and Reality*. Calgary, Alberta: Detselig Enterprises,1989.
- Hansegård, N.E. *Tvåspråkighet eller halvspråkighet?* Stockholm: Aldus series 253, 1975.
- Haugen, E. *The Norwegian Language in America: A Study in Bilingual Behavior*. Philadelphia: University of Pennsylvania Press, 1953.
- Haugen, E. *Bilingualism in the Americas: A Bibliography and Research Guide*. American Dialect Society Publications, 26, Alabama, 1956.
- Henning, G. *A guide to language testing: Development, evaluation, research*. Cambridge: Newbury House,1987.
- Hernández-Chávez, E., Burt, M. & Dulay, H. Language dominance and proficiency testing: Some general considerations. *NABE Journal* 3 (1), 41-54, 1978.
- Hockett, C.F. *A Course in Modern Linguistics*. New York: Macmillan, 1958.
- Hoffman, C. *An Introduction to Bilingualism*. Harrow: Longman, 1991.
- Jacobovits, L. Commentary on 'How can one measure the extent of a person's bilingual proficiency?' In L. Kelly (ed.) *Description and measurement of*

bilingualism. Toronto: University of Toronto Press, 1969.

Jones, B.M. *Beth yw gwall mewn iaith plant?* Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg, 1988.

Jones, D. *Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd*. Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg, 1997.

Landry, R., Allard, R. & Th  berge, R. School and family French ambiance and the bilingual development of Francophone Western Canadians. *Canadian Modern Language Review* 47 (5), pp.878-915, 1991.

Lenneberg, E. *Biological Foundations of Language*. New York: John Wiley & Sons 1967.

Mackey, W.F. The Description of Bilingualism. *Journal of the Canadian Linguistic Association*, 1957.

Mackey, W.F. *Bilingualism as a World Problem/ Le bilingu  isme: ph  nom  ne mondial*. Montreal: Harvest House, 1967.

Mackey, W.F. The Description of Bilingualism. In Fishman (ed.) *Readings in the Sociology of Language*. The Hague: Mouton, 1968.

Mackey, W.F. The Description of Bilingualism. In J.A. Fishman (ed.) *Readings in the Sociology of Language* 554-584. The Hague: Mouton, 1970.

Mackey, W.F. Bilinguisme et contact des langues. Paris: Klincksieck, 1976.

Macnamara, J. How can one measure the extent of a person's bilingual proficiency? In L. Kelly, *Description and Measurement of Bilingualism*. Toronto: University of Toronto Press, 1969.

Magiste, E. Utg  r flerspr  kighet en belastning p   vissa hj  rnfunktioner? In *Tv  spr  kighet*, 91-103, 1979.

Malherbe, E. Comments on "How and when do persons become bilingual?" In L. Kelly (ed), *Description and measurement of bilingualism*. Toronto: University of Toronto Press, 1969.

Martin-Jones, M. Language, Power and Linguistic Minorities: the need for an alternative approach to bilingualism, language maintenance and shift. In R. Grillo (ed.) *Social Anthropology and the Politics of Language*. London: Routledge, 1989.

McLaughlin, B. *Second Language Acquisition in Childhood; Volume 1: Pre-School Children*. Hillsdale, NJ : Lawrence Erlbaum, 1984.

Meisel, J.M. The bilingual child. In T.K. Bahtia & W.C. Ritchie (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Malden, MA: Blackwell, pp, 91-113, 2004.

Myers Scotton, C. The negotiation of identities in conversation: A theory of markedness and code choice. *International Journal of the Sociology of Language* 44, 115-136, 1983.

Myers Scotton, C. Making ethnicity salient in codeswitching. In J.R. Dow (ed.) *Language and ethnicity. Focusschrift in Honor of Joshua Fishman*. Amsterdam/ Philadelphia: John Benjamins, 1991.

Nemser, W. Approximative System of Foreign Language Learners. *International Review of Applied Linguistics* 9, 115-123, 1971.

Neufeld, G.G. A theoretical perspective on the relationship of bilingualism and thought: Revisited. *Working Papers on Bilingualism* No. 2, 125-129, 1974.

Oestreicher, J.P. The early teaching of modern language, education and culture, *Review of the Council for Cultural Cooperation of the Council of Europe* 24, pp.9-16, 1974.

- Oksaar, E. Multilingualism and multiculturalism from the linguist's point of view. In T. Husén and S. Oppen (eds), *Multicultural and Multilingual Education in Immigrant countries*. Wenner Gren Symposium Series vol. 38. Oxford: Pergamon Press, 1983.
- Oller, J.W. & Perkins, K. *Research in Language Testing*. Rowley, MA: Newbury House, 1980.
- Pohl, J. Bilingualismes, *Revue Roumaine de Linguistique*, 10, 343-49, 1965.
- Pellerin, M. & Hammerly, H. "L'expression orale après treize ans d'immersion française". *The Canadian Modern Language Review*, Vol. 42, 592-606, 1984.
- Richards, J.C. Simplification: A Strategy in the Adult Acquisition of a Foreign Language- An example from Indonesian / Malay. *Four Papers on Second Language Learning*, Occasional Papers No.1, 33-41. Singapore, 1976.
- Romaine, S. *Bilingualism (Language in Society)*. Oxford: Blackwell, 1995.
- Sachdev, I. & Giles, H. Bilingual Accommodation. In T.K. Bhatia & W.C. Ritchie (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Oxford: Blackwell, 2006.
- Saenz, T.I. & Huer, M. B. Testing strategies involving least biased language assessment of bilingual children. *Communication Disorders Quarterly*, 24 (4), 189-193, 2003.
- Selinker, L. Interlanguage. *International Review of Applied Linguistics* 10, 209-230, 1972.
- Selinker, L., Swain, M. & Dumas, G. The Interlanguage Hypothesis Extended to Children. *Language Learning* 25, 139-152, 1975.
- Sharwood-Smith, M. & E. Kellerman. *Crosslinguistic Influence and Second Language Acquisition*. Oxford: Pergamon Press, 1986.
- Skehan, P. Language Testing. In *Language Teaching* 21 (January) pp.1-13 and (October) pp.211-222, 1988.
- Skutnabb-Kangas, T. *Bilingualism or Not: The Education of Minorities*. Clevedon: Multilingual Matters, 1981.
- Skutnabb-Kangas, T. & Toukomaa, P. *Teaching Migrant Children Mother Tongue and Learning the Language of Host Country in the Context of the Socio-Cultural Situation of the Migrant Family*. Tampere, Finland: Tukimuksia Research Reports, 1976.
- Spolsky, B. Language Testing: Art or Science. In G. Nickel (ed.) *Proceedings of the Fourth International Congress of Applied Linguistics*, Vol. 3. Stuttgart : Hochschul Verlag, 1976.
- Thomas, W. & Collier, V. *School effectiveness for language minority students*. Washington, DC: The National Clearinghouse for Bilingual Education. Resource Collection Series, No. 9, 1997.
- T'Sou, B.K. The Language of Swonals (Speakers without a native-language): A Study on Semilingualism and Accelerated Creolization. In H. Beardsmore (ed.) *Elements of Theory*. Brussels: Vrije Universiteit Brussel, 125-65.
- Vincent, C. *Singing to a Star: the school meanings of second generation Salvadorean students*. Doctoral dissertation, George Mason University, Fairfax, VA.
- Weinreich, U. *Languages in Contact*. The Hague: Mouton, 1953.

